

ECO'R WYDDFA

RHIF 48

MAI 1980

Pris: 12c

Agor Canolfan CWM-Y-GLO

AGORWYD Canolfan Gymdeithasol yr ardal nos Iau, Mawrth 27. Disgwylir bydd y ganolfan hon o fudd mawr i'r ardal, gan fod y trigolion wedi eu hamddifadu o'r neuadd, ac o festri'r capel, ble y cynhaliwyd gwahanol weithgareddau yn y gorffennol.

Mae'r ardal yn ddyledus i bwyllgor y Cae Chwarae, a llawer o rai eraill y tu allan i'r pwyllgor a roddodd eu hamser a'u hymdrechion diflino i weld gwreiddu sefydlu'r ganolfan.

Gwnaed apêl am gefnogaeth yr ardalwyr i'r gwahanol weithgareddau a gynhelir yn y dyfodol, gan y bydd angen cymorth ariannol i'w chynnal, a chymorth gwirfoddol i'w gwneud yn addas ar gyfer pob achlysur.

Rhoddodd cadeirydd y pwyllgor, Mr Dafydd Price, amlinelliad o hawliau'r ganolfan, ac eglurodd ar ba adegau y gellir ei defnyddio. Gan ei bod ynghlwm â'r ysgol bydd rhaid rhoi blaenoriaeth i weithgareddau'r plant yn ystod oriau'r ysgol. Gellir gwneud cais i'r prifathro am ganiatâd i ddefnyddio'r ganolfan pan fydd yn rhydd o ofynion yr ysgol yn ystod y prynhawniau.

Agorwyd y cyfarfod gyda chân groeso gan blant yr ysgol, wedi eu hyfforddi gan yr athrawon, gyda chymorth Mrs Ifanwy Jones a Miss Lowri Prys Roberts. Cafwyd cyfraniad yngwanegol gan y plant, a chân gan Myfanwy Roberts.

Estynnwyd croeso i'r gŵr gwadd, y Parch Emyr Roberts, y Rhyl, ac i'r gwsteion Miss Betty Hughes, Rhiwlas a Mr R.H. Parry, Llandudno, ar ran y pwyllgor gan Mr Llew Hughes. Yn eu hanerchiadau cafwyd hanesion diddorol ac atgofion am eu dyddiau cynnar yn yr ardal. Gwnaeth y Parch Emyr Roberts yr agoriad swyddogol, pan roddwyd yr allwedd iddo gan yr arweinydd, Mr Eurwyn Jones.

Roedd y rhan olaf o'r rhaglen yng ngofal Hogia'r Wyddfa, gyda Rosalind a Myrddin, a phwy yn well i gloi rhaglen a fu o'r cychwyn mor ddiddorol.

Talwyd y diolchiadau gan Mr Llew Hughes. Diolchodd yn arbennig i aelodau o'r pwyllgor am ddarparu ymborth mor ddeniadol i'r gwsteion.



Y Parch Emyr Roberts yn gwneud yr agoriad swyddogol.



Myrddin, Rosalind ac Elwyn yn cael hwyl gyda rhai o blant yr ysgol yn ystod yr agoriad swyddogol.

Brenhines Carnifal Bethel



Dyma Shirley Ann Turner, brenhines carnifal Bethel eleni, gyda'i gweinyddesau Ceri Evans (chwith) a Gwenno Mair Owen.

Trigolion Hafan Elan



Trigolion Stad Hafan Elan, Llanrug ar derfyn eu cyfarfod cyntaf yn eu canolfan newydd ar y stad. Codwyd pwyllgor bychan i drefnu gweithgareddau'r ganolfan a thrafodwyd nifer o syniadau ar sut i godi arian i'w rhedeg. Maent eisioes wedi datgan fod arnynt angen piano felly os oes gennych un yn hel llwch yn yr ystafell ffrynt byddai trigolion Hafan Elan yn falch ohoni. Dyma enwau'r pwyllgor i chwi gysylltu â hwy. Cadeirydd, Mrs Dilys Jones, Warden Hafan Elan, Ysgrifennydd, Miss Price, Trysorydd, Mr Robert Gruffydd Jones. Aelodau, Mr Hugh Jones, Mr Cecil Williams, Mrs Katie Griffiths, Mrs Owen.

Agorir y stad yn swyddogol ar Fehefin 20.

Eisteddfod Penisarwaun yn Llwyddiant Ysgubol

Profiad gwefreiddiol oedd gweld Capel Glasgoed, Penisarwaun dan ei sang, gyda phobl yn gorfod sefyll yn y cefn nos Wener, Ebrill 25 ar gyfer Eisteddfod gyntaf y pentref ar ôl bwlch o nifer o flynyddoedd.

Gwiredwyd breuddwydion nifer o bentrefwyr, nid yn unig yn y gefnogaeth ardderchog, a gafwyd gan y gynulleidfa, ond hefyd yn safon uchel y cystadlu, ac yn nifer y cystadleuwyr.

Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn i'r beirniaid, Mrs Einir Wyn Williams, Rhiwlas; Mrs Hywel Parry, Y Groeslon; Mr Evie Roberts, Penygroes a Mrs Carys Evans, Llanrug. 'Rydym yn

ddiolchgar iawn hefyd i Miss Annette Roberts, Dinorwig am gyfeilio, ac yn arbennig o ddiolchgar i'n llywydd, Mr Alun Glyn Jones, Bethesda. Yn bennaf oll diolch i chwithau, bentrefwyr Penisarwaun am eich haelioni a'ch brwdfrdyedd a'ch gwaith caled yn hyfforddi'r unigolion, y partion ac yn y blaen, a'ch cefnogaeth ar y noson. Ein gwobr ni, bob un ohonom, yw'r sicrwydd ein bod ni yng ngeiriau Waldo Williams, yn cadw 'i'r oesoedd a ddel y glendid a fu'.

Ceir enwau rhai o fuddugwyr yr Eisteddfod ar dudalen newyddion Penisarwaun. Bydd y canlyniadau eraill, ynghyd â lluniau yn rhifyn nesaf yr Eco.

ECO'R WYDDFA

RHIF 48 MAI 1980

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23

Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Arwel

Jones, Gwên-y-Wawr, Llanrug

(C'fon 3719)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony

Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys,

Penisarwaun.

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd

Evans, Sycharth, Penisarwaun.

TREFNYDD NEWYDDION

YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,

Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515).

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane

Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis

(Llanberis 220).

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,

Morwel, Ceunant (Waunfawr 321).

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,

Llanrug (C'fon 4669).

TREFNYDD HYSBYSEBION: John

Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug

(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Ian

Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (C'fon

3776).

TRYSORYDD: Gwyn Oliver Jones, 58

Pentre Helen, Deiniolen.

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon

3227).

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl

i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Sycharth

(Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs Brenda

Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa,

Brynrefail (Padarn 223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel

(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Dafydd Price, Tŷ Capel

(Llanberis 550)

DEINIOLEN: Meirion Jones,

Minafon, Clwt-y-bont (Llanberis 452)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro

Elidir (Llanberis 671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas,

Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel

LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce, Swyn

yr Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Leslie Larsen,

Llygad yr Haul (Llanberis 533)

TAN-Y-COED: Miss Megan

Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed

(Waunfawr 355)

TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf

Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

TREFNYDD BUSNES: Goronwy

Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,

Llanrug.

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg ar

29 MAI

Deunydd i law'r

golygyddion perthnasol

erbyn 21 MAI

os gwelwch yn dda.

Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



Croeso unwaith eto. Treuliais ddwy noson hynod o bleserus yn Eisteddfod Gadeiriol y Felinheli yn ddiweddar, er gwaetha'r ffaith i mi orfod atal y gadair yno. Peth diflas yw gorfod atal gwobr mewn unrhyw 'steddfod, ac mae atal y gadair yn rhoi dampar ar y gweithgareddau rhywsut. Ond dyna fo, mae'n rheitiach cadw safon na chynnal seremoni, hyd yn oed mewn 'Steddfod leol, a rhaid i feirniad fod yn onest ag ef ei hun, yn ogystal â bod yn onest â phwyllgor yr Eisteddfod sy'n ei wahodd i gloriannu.

Y gyfeilyddes yn 'Steddfod y Felin oedd Miss Annette Bryn Roberts - merch ifanc ddawnus o Ddinorwig. Wn i fawr ddim am gerddoriaeth, ond byddaf bob amser yn edmygu dawn y cyfeilyddion ymhob 'Steddfod y bydda' i'n beirniadu ynddi - doniau fel Davy Jones, Llanfairfechan; Dafydd Lloyd Williams, Conwy ac Eluned Douglas Williams, Dolgellau. Mawr oedd y clod i Annette yn 'Steddfod y Felinheli, a gallaf ragweld dyfodol disglair iddi. Mae cyfeilyddion o safon yn brin.

Fel y dywedais yng nghyfarfod cyhoeddus yr Eco, mae'n dreth arnai i gynnal y golofn hon, o fis i fis, gan fod cyn lleied yn anfon cerddi i mi. Efallai mai da o beth fyddai ystyried cloi lliariart y Llannerch am sbel, a rhoi'r gofod i sicrhau 'Cornel y Plant' neu golofn arall a allai ennyn diddordeb. Gyda llaw 'roeddwn yn siomedig iawn mai dim ond tua dwysn a welodd eu ffordd yn glir i ddod i'r cyfarfod cyhoeddus, yn enwedig o gofio fod tua 2,500 o gopiau o'r Eco yn cael eu gwerthu bob mis - o leia 5,000 o ddarllenwyr o bosib!

Diolch i chi Enid Jones, Tal-y-sarn am eich cefnogaeth arferol. Diolch am eich sylwadau ar gerdd y diweddar William Jones, Tremadog. Cytunaf â chwi.

O YNIFYD

(allan o 'Adar Rhiannon a Cherddi Eraill)

Dywedodd Duw rhyw fore gynt:
"Awn, crewn fyd a'i droi i'w hynt".

A gwych o fyd a luniodd O
Yn wyrdd ei lawr a glas ei do.

Ond pan orffennodd Ef bob rhan
Fe greodd ddyn yn aer y fan.

A chwythodd hwn a'i 'fennydd pŵl
Y sioe i gyd yn racs - y ffwl.

Wm. Jones

Tremadog

Gwelais yr uchod, wedi ei dorri allan o'r Fanner 27.2.57, ymysg llyfrau fy nhad. Teimlaf, yng ngwyneb sefyllfa'r byd heddiw, mai addas yw i bawb gael y cyfle o'i ddarllen, a mwyaf y myfyriwch arni, mwyaf hefyd y daw y gwirionedd sydd ynddi i'r amlwg.

A dyma gerdd o'i gwaith hi ei hun. Ai 'Y Daffodil', I.D. Hooson a symbylodd y gerdd hon?

Fe'th welais di yn y Bingo Hall
Ar noson falmaidd ym mis Mai,
Yn gwario d'amser prin yn ffôl,
A'th arian prinnach yn lleihau.
Fe'th welais wedyn yn y ddawns
Yn hapus rydd, mewn gwisg oedd
ddrud -

Yn ceisio denu, os oedd siawns,
Rhyw benbwl dwl, i lanw'th fryd.

Fe'th welais yn y Bedol un prynhawn
A phrin y medret sefyll ar dy draed;
Y gwydrau'n gwagio fesul un -
A'r olwg arnat bron â fferru'ngwaed.
Ond, yn y capel bychan un nos Sul
Ce's ryw edrychiad newydd yn dy
wedd.

'Roedd cwmni Saint y 'llwybr cul'
Yn mynnu rhoddi iti'r hedd.

Ac i gloi am y tro dyma Emyr
Bedydd a gyfansoddwyd gan y Parch
Terry Thomas, Aberteifi ar achlysur
bedyddio ei unig ŵyr, Deian Siôn.
Diolch i chwithau am alw i mewn.

DEIAN SIÔN

Ar fore'r Bedydd, uno wnawn
I foli d'Enw mawr;
Atseiniwn byth dy glodydd Di,
Creawdwr nef a llawr.

I ofal dy eglwys, lesu mawr,
Cyflwynwyn Deian Siôn;
O tywallt arno drwy ei oes
Rasusau'r addwyn O'n.

O cadw ef tra fyddo byw
Dan gysgod d'adain bur;
Bydd iddo'n Dŵr a Bugail da
Mewn hindda, loes a chur.

Â'th ddwylo sanctaidd, arwain ni,
O Dduw, ein Tad a'n lôn;
A chofia'n gu, o Brynwr byd,
Mam, Dad a Deian Siôn.

DERBYNIADAU

Diolch i'r canlynol am eu
rhoddion hael tuag at gostau'r
Eco:

£1.00 - Robert William Jones, 7
Maes Eilian, Dinorwig. £2.00 -
Mr a Mrs David Jones, 5 Maes
Eilian, Dinorwig. £5.00 - Mrs
M. Jones, 69 Ffordd Eryri,
Ystad Parc yr Hendre,
Caernarfon.

PAN OEDD NAIN YN HOGAN

gan Owen Parry,
Llandudno

(O'r Genedl Gymreig, Ionawr
10, 1978)

LLANBERIS. Gresyn garw i'r
glaslanciau direidus o Goed y
ddol dynnu eu hunain i'r fath
brofedigaeth ag a wnaethant
drwy eu terfysg a'u hafreolaeth
nos y Nadolig. Yr oedd y terfysg
yn gyfryw y noswaith honno fel
mai ychydig o lonyddwch a
thawelwch gafodd trigolion Heol
Fawr, Llanberis i gysgu. Torent
ffenestri, curen ddrysau tai,
gosodasant nifer o foxes gweigion
ar draws y ffordd fawr, yr hyn
allai fod yn ddifrifol pe daethai
cerbyd heibio yn y tywyllwch.

Daliwyd chwech ohonynt a
chospwyd hwy gan ynadon
Caernarfon y Sadwrn dilynol.
Cynifer o'r chwech a weithiant yn
chwarel Mr Asheton Smith ydynt
drwy hyn hefyd yn colli eu
gwaith yno, am fod cael ei ddwyn
o flaen yr ynadon a'i gospi yn
cynnwys diarddeliad diamodol
o'r gwaith.

... Nid diogel ydyw i ferch
fynd ei hunan ar hyd prif heol
Llanberis yn y nos heb fod yn
agored i gael ei sarhau gan rhyw
laslanc neu gilydd.

VAYNOL. Ugain punt ydoedd y
swm a ranwyd eleni gan Mr
Assheton Smith, Vaynol rhwng
tldion Llanddeiniolen a
Llandinorwig.

RHODDION

£2 - Mrs Maggie Foulkes. £3 -
Mrs Meira Jones, Deiniolen. £1 -
Di-enw, Clwt-y-bont.

£1.00: Mrs Jones, Rhos Wian,
Penisarwaun, a Mrs N.M. Pritchard,
Penisarwaun.

£5 - Di-enw Llanberis
£2 - Mrs Norah Jones, Caernarfon.
£1 - Mrs Myfanwy Jones, Llanberis
£1. - Di-enw Tanycoed
£2 - Di-enw Aberystwyth
£2 - Di-enw Deiniolen

Bistro

45 Stryd Fawr

LLANBERIS

Ffôn: PADARN 278

Pryd gorau'r fro.

WAUNFAWR

PRIODAS – Dydd Sadwrn y Pasg bu priodas Miss Iona Roberts, athrawes Feithrin â Mr A.E. Boggie. Gan ei bod yn awr yn byw yng Nglan Conwy symudwyd hi i Ysgol Eglwysbach. Y mae Miss Rhian Jones yn awr yn gofalu am yr Hafod a Mrs Pat Parry yn athrawes dros dro yn Adran y Babanod tan ddiwedd tymor yr haf.

LLONGYFARCHIADAU – I Mr Brian Parry, 16 Bro Waun ar ei briodas â Miss Shirley Elizabeth Williams, Morfa Nefyn.

I Mr Rhodri Prys Jones, Tŷ Hen ar ei briodas â Sylvia Morgan o Gaerdydd.

I Mr Adrian Roberts, Bryn Golau ar ddathlu ei ben-blwydd yn un ar hugain oed.

ARHOLIADAU CERDDORIAETH – Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant mewn Arholiadau Cerddoriaeth yn ddiweddar – Huw Ynyr, Tan y Fron, Jonathan Davies, Dol Gwyrfa, Gareth Jones, Glyn Ceris, Joanne Weale, Ty'n Twll Bach ac Alan Benham, The Haven. Maent i gyd yn ddisgyblion i Mrs Ann Marston, A.L.C.M., Blaen y Nant.

YR URDD – Llongyfarchiadau i'r parti recorders o dan 12 oed a ddaeth yn 3ydd yn Eisteddfod y Sir a gynhaliwyd ym Mangor yn ddiweddar. Aelodau'r parti oedd Iwan Ellis, Huw Ynyr, Kevin Roberts, Sian Barnes, Joanna Marston ac Eiliw Haf. Hyfforddwyd hwynt gan Mrs Ann Marston.

YMDDEOL – Dydd Gwener, Mawrth 21 oedd diwrnod olaf i Mrs Annie Roberts yng nghegin yr ysgol. Ar ôl helpu paratoi cinio'r plant am dros un mlynedd ar ddeg, heb golli'r un diwrnod, daeth amser iddi ymddeol. Ar ôl diolch iddi am ei holl waith a dymuno pob hapusrwydd ac iechyd iddi yn ei hymddeoliad, cyflwynodd y prifathro sic o £50 iddi ar ran rhieni, plant ac athrawon yr ysgol. Cyflwynodd Mrs Arianwen Thomas, y gogyddes, set o lestri te iddi ar ran staff y gegin. Dymuna Mrs Roberts ddiolch yn gynnes iawn i bawb am eu caredigrwydd ac am y blynyddoedd hapus a dreuliodd yn yr ysgol.

MERCHED Y WAWR – Nos lau, Mawrth 27 cyfarfu'r gangen yn Neuadd yr Eglwys dan lywyddiaeth Mrs M. Awstin Jones. Dangoswyd ffilm ar Ysgol Pendalar Caernarfon gan y brifathrawes, Mrs Catherine Jones, Crud yr Awel. Diolchwyd iddi gan Mrs Brenda Jones, Betws Garmon. Gwestwagedd y te oedd Mrs Bet Hughes, Mrs Gillian Wyn a Mrs Carys Jones. Enillwyd y raffl a roddwyd gan Mrs Bet Hughes gan Mrs Mary V. Jones.

CRONFA GOFFA RHIAN WYN – Nos Fawrth, Ebrill 22 cafwyd gwledd yn Neuadd yr Eglwys pryd y perfformiwyd 2 ddrama fer gan Gwmni Drama Glannau Dwyfor. Daeth y Cwmni yma yn ddi-dal er budd yr achos arbennig yma, ac 'rydym yn ddiolchgar iawn iddynt ac i bawb a gyfrannodd mor haelionus ymhob ffordd. Bydd sic o tua £55 yn cael ei hanfon i'r Gronfa.

YR YSGOL FEITHRIN – Bydd yr Ysgol Feithrin eleni yn dathlu'r 'Wythnos Wyl Feithrin' gyda 'Bore Agored' yn Ffestri Capel Croesywaun, bore Mawrth, Mai 13. Bydd croeso cynnes i bawb alw i mewn rhwng 10 ac 11 o'r gloch am baned a sgwrs ac i weld y plant bach wrth eu gwaith.

CLWB GWYRFAI – Daeth tyrfa fawr o aelodau'r clwb i'r ysgol, pnaun lau, Mawrth 6ed i ddathlu Gŵyl Ddewi. Roedd rhaglen amrywiol wedi ei pharatoi ar eu cyfer, pob plentyn o 3 oed i fyny yn cymryd rhan. Roedd yn amlwg fod yr athrawon wedi

gweithio yn galed gyda'r plant a gyflawnodd eu rhan mor ardderchog.

Cynnwys y rhaglen oedd 'Y Recorders', Parti Canu, Darllen Ysgrythur, Gweddio, Darlleniadau eraill, Canu Penillion, Cydadrodd, Cân Actol a Chanu Gyda'r Crwth.

Yn ôl y derbyniad gafodd y plant, roedd yn hollol amlwg fod pawb yn bresennol wedi cael gwledd. Ar ôl y cyngerdd cafwyd gwledd wedyn, sef bwyd wedi ei roddi gan rieni a phlant Safon 4 ac wedi ei baratoi gan ferched y gegin. Diolchodd Mrs Morgan Jones, Pant, cyn-athrawes yr ysgol i'r oll o'r plant, yr ysgolfeistr a'r athrawon, y rhai oedd wedi rhoi'r bwyd a'r merched oedd wedi ei baratoi mor hwylus. Eiliwyd hyn gan Mr T.H. Williams ac adroddodd amryw o benillion roedd wedi eu cyfansoddi yn bwrpasol ar gyfer yr amgylchiad. Llywyddwyd gan yr ysgolfeistr, Mr Leslie Jones a diolchodd yntau i bawb oedd wedi ei gwneud yn bosibl i aelodau'r clwb fwynhau eu hunain gyda phlant ac athrawon yr ysgol.

Annwyl gyfeillion,

Dydd Sul, Medi 28, 1980 bydd eglwys y plwyf – St. Iwan – yn gant oed. Mae aelodau'r eglwys yn paratoi i ddathlu'r pen-blwydd hapus hwn, ond ni fynnant ei gadw iddynt hwy eu hunain. Carent petai pawb o bobl Waunfawr a Betws Garmon yn cael rhan yn y dathlu. Bydd yn achlysur inni edrych yn ôl dros gan mlynedd ond bydd hefyd yn gyfle inni edrych ymlaen i'r dyfodol a cheisio canfod ffurf pethau sydd i ddod. Mae'r Cyngor Eglwysig lleol yn gofyn am eich diddordeb a'ch cefnogaeth a byddwn yn ddiolchgar am awgrymiadau ynglŷn â'r dathlu a sut y medrwn drefnu bod yr ardal gyfan yn cael rhan ynddo.

Efallai carech wybod fod Apêl Canmlyddiant wedi agor ar y 1af o Dachwedd diwethaf a bydd yn agored am flwyddyn. Mae angen arian i roi trefn ar yr adeilad ac i sicrhau ei barhad. Trysorydd yr Apêl yw Mr J.J. Weaver, Isgoed, Waunfawr. Bydd yn ddiolchgar am bob cyfraniad a chydabyddir bob rhodd.

Yn gywir,
R. Glyndwr Williams
(Rheithor)
C. Chadwick
(Warden)

ENILLWYR CLWB CANT – Mis Ionawr: 1. W.T. Owen, Noddfa, £8. 2. D.L. Davies, Nant y Mynydd, £4. 3. M.V. Jones, Hafod y Coed, £2. Mis Chwefror: 1. Mrs Hughes, Llys Meredydd, £8. 2. John Elis, Glyn Awel, £4. 3. Olwen Williams, Lliadiart Wen, £2. Mis Mawrth: 1. Gwyn Davies, Bryn Eithin, £8. 2. Gareth Jones, Glyn Ceris, £4. 3. Mary B. Davies, Bryn Eithin, £2.

GENEDIGAETH – Llongyfarchiadau i Rosalind ac Emrys Owen, Y Glennydd, ar enedigaeth merch, Allison, chwaer i Heather a Sharon.

ADREF O'R YSBYTY – Croeso adref i Miss Mary Hughes, Vardre; Miss C.E. Williams, Is Eilian; Mr Raymond Parry, Ffridd Felen, Mr King, Ger y Nant a Heddwas Gwynedd, Bryn Meurig. Gobeithir eich bod i gyd yn dal i wella.

PROFEDIGAETHAU – Cydymdeimlir â Mrs Gruff Williams, Dolwar Fach ar golli ei brawd; Mrs Helen Jones, Dol Erddi ar golli ei thad; Mrs M. Austin Jones, Penrhos a Mr Dan Pritchard, Bro Waun ar golli eu brawd; Mr Glyn Owen, Glan Gors ar golli ei fam a Mrs R. Lewis Parry, 4 Eilian Terrace ar golli ei chwaer.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod mis Ebrill o'r Sefydliad yn Neuadd yr Eglwys, nos lau, Ebrill 3, gyda Mrs Catherine Jones yn llywyddu. Y wraig wadd oedd Mrs M.D. Brearley a chafwyd arddangosfa a darlith ddiddorol ar Wniadwaith gydag Ann Ladbury. Diolchodd Mrs Morfa Evans iddi. Rhoddodd Mrs Annie Thomas y blodau i Mrs C.E. Williams, sydd yn yr ysbty. Enillodd Mrs Annie Thomas y raffl. Cynhelir y cyfarfod nesaf, nos lau, Mai 1af pryd y bydd ymwelydd gwirfoddol yn trafod Penderfyniadau'r Cyfarfod Blynnyddol.


EFEILLIAID

A fuo chi 'rioed mewn penbleth
Yn holi p'run ydi p'run,
Wrth edrych ar ddau efaill
A'r ddau 'run lliw a llun.

Nid camp i neb fydd didol
'Refeiliaid sydd yn Tanbryn,
Mae gwlan y naill cyn ddued,
Tra'r llall fel eira'n wyn.

CYDYMDEIMLWN – Â Mrs Robert Lewis Parry wedi colli chwaer ym Mhorthmadog.

Anghenfil yn 'Nhro Tynal'



Angenfil yn 'Nhro Tynal'. Dyma un o'r anghenfilod a welid yn aml y

dyddiau yma ar ffyrdd y fro. Welsoch chi lori gydag ugain o olwynion arni?

**WIL
a
VAL GUY
TREFLYN
STORES
BETHEL**

**Bwydydd, Melysion,
Teganau a Dioddydd
Y FELINHELI 670237**

**OSMOND
W. SHAW**



**Peiriannydd
Radio a Theledu
& Gwasanaeth Awdio
BWLCH UCHAF**

DEINIOLEN
Ffôn Llanberis 545
Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch
cyn 10 o'r gloch

**EVANS VEHICLE
BODY REPAIRS
& PANEL BEATERS
CLWT-Y-BONT**

Ffôn: LLANBERIS 611

am drwsio
TOLCIAU, WELDIO, SPREIO, ATGYWEIRIO
wedi damwain, ac ati.

CEIR AIL-LAW AR WERTH

PENISARWAUN

TEITHIO I OCHR ARALL Y BYD – Erbyn hyn y mae Miss Ellen Wyn Davies, merch Mrs Mary Davies, Llys y Gwynt, yn Awstralia. Aeth yno i weld ei hewythr a'i modryb sef brawd a chwaer ei mam. Ar y ffordd yno cafodd ychydig ddyddiau yn Singapore.

(Beth am lun ac ychydig o'r hanes yn ein rhifyn nesaf, Ellen?) Mae Mrs Mary Davies wedi rhoi addewid i ni o adroddiad a lluniau o'i hymweliad hi ag Awstralia yn ystod yr haf.

CODWM GO DDRWG – Yr oedd yn ddrwg gennym glywed am y ddamwain a gafodd Mrs Mary Davies. Yn ganlyniad i hyn bu rhaid iddi gael pwythau i'w choes. Y mae pawb yn gobeithio y byddwch wedi gwella'n llwyr yn fuan.

DIOLCH – Wrth sôn am ddamwain Mrs Davies, dyma gyfle, hwyrach, i ddiolch yn fawr iawn i Mike Lamb, 2 Bryn Eglwys, sydd bob amser mor barod i ddefnyddio ei wybodaeth a'i allu 'Cymorth Cyntaf' i helpu pawb sydd yn cael ddamwain. Mae Mike wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar yn rhuthro o le i ie ym Mryn Eglwys a Llys-y-gwynt yn trin coesau, bysedd ac yn y blaen.

Dymuna Mrs Ellen M. Pritchard, Brynhyfryd ddiolch i'w chyfeillion oll am y cardiau, anrhegion, ymweliadau a'r dymuniadau da a dderbyniodd yn ystod ei salwch yn ddiweddar.

Y mae Mrs J.M. Jones, 4 Llys y Gwynt yn ddiolchgar i bawb am eu caredigrwydd tuag ati yn ystod ei phrofedigaeth o golli ei gŵr, Llywelyn.

BABANOD NEWYDD – Mae tymor babanod yn ei anterth yma ym Mhenisarwaun gyda Mr Len Jones, pennaeth yr ysgol wrth ei fodd.

Gwenllian Catherine Turner. Ar ddydd Sul Ebrill 13 ganwyd merch i Mr a Mrs Bob Turner, Tyddyn Difyr. Llonyfarchiadau i Julie a Bob a dymuniadau da iddynt a'r teulu.

Ynyr Gruffudd. Aelod diweddaraf o deulu Arwel yw Ynyr. Llonyfarchwn Nant a Tegid ar enedigaeth eu mab Ynyr. Rydw i'n sicr y bydd Huw Tegid wrth ei fodd i gael brawd bach.

Daniel. Llonyfarchiadau i Dilys (3 Bryntirion gynt) ar enedigaeth mab yn ddiweddar. Daniel yw enw'r hogyn bach newydd.

MARW YN 90 OED – Bu farw Mrs Jones, mam Mrs Catherine Williams ychydig wedi dathlu ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed. Bu'n aros gyda'i merch a'r teulu yn 20 Bryntirion ers blynnyddoedd. Cydymdeimlwn gyda theulu 20 Bryntirion a theulu Perthi yn eu gofid.

I'R YSBYTY – Aethpwyd a Mr John Williams i'r ysbty ddydd Sul wedi iddo gael poenau yn ei frest. Tybiwyd ei fod wedi cael trawiad ar y galon a bu yn adran gofal trylwyr o'r ysbty. Ond yr ydym yn falch o glywed ei fod yn well o lawer rwan.

GWORTHUN – o beth oedd clywed bod nifer o gennin Pedr a blodau eraill wedi cael eu tynnu, heb unrhyw reswm, o erddi yn y pentref. Mae blodau yn bethau lliwgar hyfryd mewn byd llwyd. Maent yn hyfrydwch i'r llygad, felly gadewch lonydd iddyn nhw.

EGLWYS SANTES HELEN – Cafwyd cyfarfod o Undeb y Mamau, nos Lun Ebrill 14. Cymerodd Mrs B. Mowll y gwasanaeth. Y gŵr gwadd oedd Mr M. Hughes, Swyddog Amgylchedd yng Nghaernarfon. Roedd yn agoriad llygad i weld a chlywed am y pethau sydd yn digwydd o'n cwrmpas. Rhoddwyd y te gan Mrs M.J. Roberts, Tai Croesion, a Mrs O.C. Roberts, Elidir View. Balch oeddym o gael Mrs M.J. Roberts a Mrs O. Thomas yn ôl yn ein plith. Anfonwyd dymuniadau da i Mrs S. Roberts (Ship gynt) a Mrs N.M. Pritchard, Brynhyfryd am wellhad buan.

Cafodd 10 o blant yr Eglwys eu confirmio gan Ei Ras, Archesgob Cymru ar ddydd Sul y Blodau yn Eglwys Grist, Caernarfon. Cawsant eu Cymun cyntaf ddydd Sul y Pasg, o dan ofal y Parch. D. Gwynfor Williams, Rheithor Llanrug. Rydym yn ddiolchgar iddo am hyfforddi'r plant.

Bedyddiwyd Dylan Wyn, mab bach Mr a Mrs Bryn Hughes, Ty'n'rardd, Bethel ddydd Sul, Ebrill 13 gan y Rheithor, Llanrug.

Cydymdeimlwn â Mrs J.M. Jones ar golli ei brawd-yng-nghyfraith yn Neiniolen, ac ewythr yng Nghaernarfon. Rhaid ei llonyfarch hefyd ar fod yn fodryb am y tro cyntaf.

Cynhaliwyd Ffestri'r Pasg nos Fawrth, Ebrill 8, dan gadeiryddiaeth y Canon Alun Jones. Fe ail-etholwyd y swyddogion am flwyddyn arall. Dymuna'r Wardeiniaid ddiolch yn fawr i'r merched fu'n addurno'r Eglwys mor hardd ar gyfer gwasanaeth Sul y Pasg. Ychydig ohonynt a ddaeth ynghyd. Serch hynny roedd eu gwaith yn ganmoladwy dros ben.

DIOLCH – Dymuna Mrs N.M. Pritchard, 4 Tai Brynhyfryd gydnabod caredigrwydd perthnasau a chyfeillion tuag ati tra yn ysbty Walton Lerpwl, ac wedi iddi ddychwelyd gartref. Diolch hefyd am

y cardiau, llythyrau, ac anrhegion a dderbyniodd.

Y LLUN – GAN Miss Laura Jones, Craig Ddinas, oedd yn yr Eco yn ddiweddar. Y ferch ddiennw yn y llun oedd Miss Humphreys, merch i ddyn a ddaeth yn rheolwr yn y chwarel gynt.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Neithiwr, nos Fawrth, Ebrill 22 cynhaliwyd noson lwyddiannus o 'Moes a Phryn' gyda'r elw yn mynd i'r Sefydliad. yn ystod y noson dymunwyd yn dda i Miss Ellen W. Davies ar ei thaith yn Awstralia; i Mrs Nancy Jones ar ei phen-blwydd a hefyd i Mr a Mrs W. Jones, 13 Bryntirion ar eu priodas aur. Yr oedd yr aelodau yn falch o weld Mrs Mary Davies wedi gwella. Rhoddwyd y te gan Mrs Eirlys Jones a Mrs Bessie Williams. Enillwyd y raffl gan Miss Gwenifer John, Bryntirion.

EISTEDDFOD PENISARWAUN – Cynhaliwyd Eisteddfod Penisarwaun, nos Wener, Ebrill 25, 1980 yng nghapel Glasgoed. Yn anffodus roedd yr Eco yn gorfod mynd i'w wely yng Ngwasg Gwynedd cyn i ni fedru cynnwys rhestr y buddgwyr yn y cystadlaethau llwyfan, coginio a gwaith llaw. Serch hynny bydd enwau'r rhai llwyddiannus yn y cystadlaethau hyn, ynghyd â lluniau nifer o'r buddgwyr yn ymddangos yn rhifyn nesaf yr Eco. Bodlonwn am y tro ar enwau'r buddgwyr yng nghystadleuaeth Arlunio, Barddoniaeth a Rhyddiaith.

ARLUNIO
Dan 5 oed: Wy Pasg. 1. Ceirion Williams, 2. Sioned Lewis, 3. Susan Williams a Kenneth Richardson. 5-7 oed, 'Tŷ Ni'. 1. Rosie Smith a Rhian Williams; 2. Bethan Evans ac Amanda Orrock; 3. Andrew Turner ac Iola Williams. 7-9 oed 'Diwrnod Trip': 1. Eurgain Haf Evans a Darren Lamb, 2. Sioned Roberts, 3. Elaine Lewis, Mark Porter a Hayley Barton. 9-10 oed: 1. Gwenllian Parry ac Alison Lewis, 2. Catrin Evans a Patrick Crew; 3. Ceirion Williams. 11-13 oed 'Poster Disco': 1. Aila Heatherley, 2. Sharon Owen, 3. Fiona Jones a Meirwen Williams. 13-15 oed 'CLawr Llyfr': 1. Leonard Naylor. Dros 15 oed: 1. Arwel Williams

Rhyddiaith: 5-7 oed, 'Mynd am Dro'. 1. Rosie Smith, 2. Amanda Orrock a Bethan Evans, 3. Dylan Price Williams ac Andrew Turner. 7-9 oed: 'Ein Pentref Ni': 1. Eurgain Haf Evans, 2. Dylan Pierce Williams a Sioned Williams, 3. Elaine Lewis; Sioned Roberts; Ian Roberts; Mark Porter ac Emyr Williams. 9-11 oed: 'Fy Arwr neu Arwres': 1. Dylan Edwin Jones, 2. Sharon Green; Alison Lewis; Gwenllian Parry a Rhian P. Williams, 3. Meurig Green; Kevin Pritchard; Bethan Jones a Delyth Evans. 11-13 oed 'Dyddlyfr Wythnos': 1. Aila Heatherley a Rheon Larsen, 2. Meirwen Williams, Fiona Jones a Sharon Owen. 13-18 oed 'Llyfr Lloffion', 1. Gwen Williams, Bethel, 2. Gwen Lloyd Williams, Tan Gaer. Tlws yr Eisteddfod i Eilian, sef Gwen Williams, Bethel.

Rhyddiaith Ail Iaith: 1. Hayley Barton, Lawrence Turner, Angharad Crew a David Edwards; 2. Berwyn Paterson a Steven Gayther, 3. Timothy Lewis, Lucas Crow a Darren Lamb. 9-10 oed 'Y Daith': 1. Alison Barton, 2. Patrick Crew a Joel Smith, 3. Paula Edwards a Nigel Oulton.

Barddoniaeth. 9-11 oed 'Y Gwanwyn': 1. Dylan Edwin Jones a Gwenllian Parry, 2. Delyth Evans, 3. Carys Wyn Griffith a Sharon Green.

11-13 oed 'Y Mynydd': 1. Fiona Jones, 2. Sharon Owen a Rheon Larsen, 3. Meirwen Williams. 13-15 oed 'Y Machlud': Y drydedd wob i Gwen Lloyd Williams, Tanygaer.

YR YSGOL – Ymunodd tair o'r genethod, sef Sharon Owen, Bethan Jones a Gwenllian Parry â phlant o ysgolion Llanrug a'r Bontnewydd i fwynhau gwyliau yng ngwlad Belg dros y Pasg. Cafwyd amser difyr iawn yn ymweld â threfi diddorol fel Bruges, Sluice a Middleburg (y ddwy olaf yn yr Iseldiroedd) yn ogystal â Brwsel, y brifddinas.

Rhyw gerdded o'r cae i'r ysgol â'u pennau yn eu plu oedd hanes y tîm pêl-droed yn ddiweddar, wedi i Ysgol Rhiwlas eu curo o 5 gôl i 3. Ond mae'r hogiau eisoes yn hogi arfau ar gyfer y gêm nesa'.



Llun Mr a Mrs W.J. Jones (Jennie Price gynt) 13 Bryn Tirion, Penisarwaun, oedd yn dathlu eu Priodas Aur ar Ebrill 26ain. Mae 5 o blant ganddynt, sef Huw, Bobby, Eric, Betty ac Olwen, a 6 o wyrion. Llonyfarchiadau Mr a Mrs Jones.

DINORWIG

DIOLCH – Dymuna teulu Tŷ'r Ysgol, Dinorwig ac Elen Morris, 39 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ddiolch i bawb am eu cydymdeimlad a'r caredigrwydd a estynnwyd tuag atynt yn eu profedigaeth ac hefyd am y cardiau niferus a dderbyniwyd.

CYDYMDEIMLIR Â – Mr a Mrs R.H. Williams, Tŷ Capel, a'r cysylltiadau teuluol, ym marw mam Mr Williams, sef Mrs Ellen Williams, Garth Fawr, y Felinheli, yn ddiweddar.

– Mr a Mrs David Jones, 5 Maes Eilian, a Mr Robert Jones, 7 Maes Eilian a'r cysylltiadau teuluol, ym marw eu brodyr yn ddiweddar, sef Mr Llew Jones, Llys Gwynt, Penisarwaun a Mr Hugh Jones, Tai Capel, Deiniolen.

– Miss Salome Jones, 6 Bro Elidir a'r cysylltiadau teuluol ym marw ei chwaer yn Lerpwl yn ddiweddar.

DIOLCHIADAU – Dymuna Mr a Mrs David Jones, 5 Maes Eilian ddiolch yn garedig i bawb am y cardiau a'r rhoddion a dderbyniwyd ganddynt yn ystod eu profedigaeth yn ddiweddar. Hefyd dymuna Mr Robert Jones, 7 Maes Eilian ddiolch yn garedig am y rhoddion a dderbyniwyd yn ystod ei brofedigaeth yn ddiweddar.

Dymuna Mr a Mrs R.H. Williams, Tŷ Capel, a Mr a Mrs R. Roberts, Garth Fawr, y Felinheli, ddiolch yn gynnes iawn i berthnasau, cymdogion a ffrindiau am eu cydymdeimlad ac am y cardiau a'r llythyrau a dderbyniwyd ganddynt yn ystod eu profedigaeth yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU – i Mr a Mrs R. Gwilym Jones, Tan Buarth Uchaf, ar eni eu hŵyr cyntaf, sef mab bychan i Einir y ferch a'i gŵr, Mr a Mrs J. Gwyn Williams, Pentre Helen, Deiniolen. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

**GWASANAETH
NEWYDD
YNG
NGHAERNARFON**

**Bathodynau
Crwn ar
gyfer . . .**

Clwb Rygbi/Tim Peldroed/Cymdeithas
Grŵp Pop/Clwb Gwerin/Papur Bro
Siop/Busnes/Swyddfa, etc

Am fwy o fanylion a samplau cysyllter ag:

EURIG WYN

SIOP Y PENTAN

YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS
CAERNARFON (Ffôn: 5262)

YMDDIHEURIAD - Rhaid ymddiheuro i Mrs Katie Williams, Llys-y-gwynt, am bod rhai o'r penillion yn sôn am y 'Bws Chwarel' wedi mynd ar goll. I wneud iawn am hyn dyma'r penillion unwaith eto. Os bydd rhai ar goll y tro hwn . . . Wel! Tri chynnig i Gymro!! Rhifyn mis Mai amdani!!

Bws Chwarel Yn Gadael Penisarwaen Ym 1929

Er mwyn i chwi wybod, y Cymry ar daen,
Prif dref Llanddeiniolen yw Penisarwaen.
A'i phobl yn rhif rhai miloedd y sydd
A'i thwrw a'i masnach yn fwy na Chaerdydd.

Mae yna rhai cannoedd o siopa' a thai,
Hotels a phlasau sy'n llawn ym mis Mai,
O Saeson, Ysgotiaid, a Gwyddel a Ffreus
A llawer o Ledis heb fymryn o sens

O'r holl adeiladau rhaid dweud mai Siop Gron
Yw'r fangre brysura a welwyd o'r bron;
Can's yna moduron sy'n gadael am saith
Gan gludo'r chwarelwyr i fyny i'r gwaith.

O'r helynt a'r bloeddio a chanu corn chwyth
A llawer hen 'dderyn heb droi yn ei nyth.
Ble mae'r breuddwydwyr medd dreifar Jack Huws
Dyw gweiddi yn ninas y meirw ddim iws.

Yn awr fe ddaw fflamiau a mwg o'r holl gyrn
A sŵn y meginau yn chwythu yn chwyryn.
Pob tegell a phadell yn canu trwy'r lle
A'r ieir a'r ceiliogod yn bloeddio 'Hwre'.

John Evans, 'Conductor' edrychai yn syn
Wrth weled a chlywed rhialtwch fel hyn;
'Hei up' meddai'r dreifar, 'Rwy'n

CARNIFAL LLANBERIS

Estynnir gwahoddiad oddi wrth y Pwyllgor i holl gyn-freninesau pob Carnifal a fu i Garnifal Llanberis ar Sadwrn, Gorffennaf 19.

A fuasai'r rhai sydd â diddordeb gystal â chysylltu â'r ysgrifennydd - Mr Alwyn Thomas, Foelas, Stryd Newton, Llanberis.

MOTOR BACH Y RHIWEN

Diolch yn fawr i Goronwy Jones, Caerffynnon, Penisarwaen am y penillion hyn a gyfansoddwyd gan ei dad, y diweddar John Griffith Jones, Minffordd, Bangor i ganmol y bws cyntaf a redodd o Ddeiniolen i Fangor drwy Riwlas, Pentir, Caerhun a Minffordd tua 1927. Perchennog y bws wrth gwrs oedd Mr John Hughes, Rhiwen. Cyn i'r bws redeg roedd rhaid i bobl gerdded i Fangor o'r llefydd uchod, neu gerdded i ddal y trên o Felin-Hen. Nid oedd y bws yn fawr. Roedd sedd hir ar hyd y ddwy ochr, a mwy o bobl yn sefyll nag yn eistedd.

myned yn awr
I guro Bob Gruffudd i fyny neu lawr'.

Ar f'engoch mi awn ni rhyw fore mewn pryd
A'i gadael fel mynwent i gysgu i gyd
Ble mae Thomas Huws, gyda Dafydd Go?
Caed pwysau cloc Deiniol o nyth y Jac-do.

Daw Deiniol dan redeg a sychu ei chwys
John Daniel sy'n gweiddi 'Cau fotwm dy grys'
Ond pan gafodd Deiniol ei wynt, medda fo
"Ond pwysau fy nghloc sydd yn nyth y Jac do".

Ar hyn fe gaed araith wefreiddiol, nid ffug:
Ar gychwyn yn frydlon, gan ddyn o Lanrug,
"Hwt, hwt" meddai'r hwter cyn cyhwyn y car
Ar heol lefn, wastad o fetlin a thar.

Ond pan oedd y modur yn ymyl Tŷ Crydd
Pwy redodd o rywle ond Huwryn Brynrydd
A'i ddwylo i fyny gan weiddi 'Howld on!! beth oeddech yn cychwyn heb Edwin a John?'

Ac wedyn pan ydoedd yn ymyl Tŷ Gwyn
Mae rhywun yn rhywle yn gweiddi fel hyn
'Howld! Stopiwch! Mae John a Percy yn dod'.
Ac am eu rhedegfa cânt 'Cheers' a chlod.

O'r diwedd, o'r diwedd mae pawb yn y bws,
A'r diwedd ar helynt y gweiddi a'r ffys.
A mwg dail yr india yn llenwi ar daen
Fel yna cedwir Tref Penisarwaen.

Penisarwaen - Atodiad

LLONGYFARCHIADAU GWRESOG - I Mrs Margaret Theresa Brown, merch Mr a Mrs Goronwy Jones, Caerffynnon, ar ennill gradd B.Add., ar ôl dilyn cwrs mewn coleg yn Stafford, ac am gael y marciau gorau yn hanes y coleg. 'Roedd Mrs Brown yn athrawes ieithoedd mewn ysgol gyfun yn Pentridge cyn iddi hi a'i gŵr symud i fyw i Amsterdam yn yr Iseldiroedd lle mae Mr Brown wedi dechrau swydd newydd. Llongyfarchiadau i Mrs Brown, a'n dymuniadau gorau i'r ddau yn eu cartref newydd.

MOTOR BACH RHIWEN

Mae motor bach y Rhiwen
Yn cario'r holl drigolion
O Riwlas, Pentir, Pant Caerhun
A Minffordd lawr i Fangor,
A phawb wrth eu bodd.

Mae'r bachgen llon a llawen
Sy'n dreifio motor Rhiwen
Yn haeddu clod am iddo fod
Yn cadw cownt yr arian.
Y dreifar 'di 'o.

Mae Mr. Hughes yr 'owner'
Yn wir yn werth ei ganmol,
Am yrru'r bws trwy'r ffasiwn le
'Rwy'n diolch iddo o'm calon.
Yr 'owner' 'di 'o.

Mae'r bws ar ddiwrnod marchnad
Yn hwylus iawn i'r merched
Ac ar nos Fercher ddeg o'r gloch
Fe gludai rhai o'r Pictiwrws
Bws hwyr ydi hi.

Daw Griffith Griffiths lawen
Adre ym motor Rhiwen.
Ond twt daw Teitus fyny'r Maes
A'i wyneb llaes aflawen
Yn chwys i gyd.

Llythyrâu

3, Maes Cemig,
Llangwm,
Corwen,
Clwyd.

(Ffôn: Cerrigydrudion 478)

Annwyl Gyd-Gymry,
Ysgrifennaf atoch i gyflwyno
Cywaith Uwchaled i chi ac i ofyn
am eich cefnogaeth.

Menter Gydweithredol yw
Cywaith Uwchaled a sefydlwyd yn
ddiweddar yn yr ardal Gymraeg
hon i geisio lleddfu ychydig ar y
broblem ddi-boblogi. Diffyg
gwaith yw achos pennaf y
di-boblogi hwn ym mhlwyfi
Cerrigydrudion, Pentrefoelas,
Llanfihangel Glyn Myfyr a
Llangwm fel mewn llawer i ardal
arall gyffelyb. Bwriad a nod
Cywaith Uwchaled yw ceisio
newid rhywfaint ar y drefn
economaidd hon sy'n gwasgu
cymaint ar ein cefn gwlad.
Gobeithiwn, cyn hir, allu cynnig
gwaith i rai o ieuenctid ein cylch.

Mae gennym ddau syniad
pendant ar y gweill ar hyn o bryd sef
sefydlu gweithdy coed i gynhyrchu
gwahanol nwyddau a dechrau
popti i gynhyrchu teisennau,
bisgedi ac yn y blaen. I wneud hyn
oll y mae'n rhaid wrth gyfalaf wrth
gwrs a phrif bwrpas y llythyr hwn
yw gofyn am eich cymorth chwi
ddarlennwyr eich papur bro.

Rydym yn cynnig

cyfrandaliadau yn y Fenter am £5
yr un. Gellir prynu unrhyw nifer a
chedwir yr arian am o leiaf bum
mlynedd. Nid ydym chwaith, ar
hyn o bryd, yn cynnig unrhyw log ar
yr arian.

Os hoffai unrhyw un ein helpu
fel hyn buaswn yn fwy na balch o
glywed oddi wrtho. Beth am dynnu
rhywfaint o bres o afael y banciau
mawr a'i roi ar waith dros Gymru?

Yn ddiolchgar,

Moi Parri,

(Ar ran Pwyllgor Rheoli,
Cywaith Uwchaled)

1 Penrallt,
Station Road,
Llanrug.

Annwyl Olygydd,
Wedi gweld Hanes Teulu
Eryri a darlun o Sefydliad Coffa
Llanrug yn Eco'r Wyddfa mis
Ebrill mae hanes yr agor gennyf
a'r darlun yn 1922 ond ei fod wedi
gwanhau rwan. Fy niweddar dad
a Mr Owen Ellis Jones, Deiniolen,
oedd wedi cynllunio a gweithio
ar y Garreg Guffa gyntaf, -
Richard W. Jenkins gynt o
Meifod. Bu farw ddydd cyntaf o'r
flwyddyn 1923. Cefais innau'r
faint o gyfarfod â Mr Alun
Williams o'r BBC yng Nghlwb
Blodau'r Grug yn ystod mis Mai
1976. Recordio rhaglen 'Dewch
am dro' yn yr Institute (ei ferch
hynaf).

(Miss) D. Jenkins

NANT PERIS

LLONGYFARCHIADAU - i Emyr
Searell ar ei benodiad yn Arolygydd
lechyd yr Amgylchedd i Gyngor
Arfon. Mae'n bleser cael croesawu
pobl ifanc yn ôl i Gymru yn lle gorfod
ffarwelio a hwy fel yr ydym yn rhy
amal o lawer. Pob bendith Emyr ac
Esther ar eich dychweliad wedi
cyfnod o fyw ym Mryste a Llundain.

AR Y RADIO - Llongyfarchiadau i
Eifion Peris, Cerrig Drudion am ennill
tocyn £5 mewn cystadleuaeth ar
raglen Ribidires ar y radio fore
Sadwrn wythnos yn ôl.

GYRRU 'MLAEN - Da iawn Alwyn
Searell am lwyddo yn dy brawf gyrru.
(Paid a gyrru gormod!)

CROESO - i'r teulu newydd sydd
wedi dod i fyw i 3 Bro Glyder.

Gobeithiwn y byddwch yn hapus yn
eich cartref newydd.

DYMUNIR adferiad buan i bawb sydd
yn cwyno yn yr ardal a gobeithir eu
gweld o gwmpas yn fuan wedi
gwella'n llwyr.

CAFWYD cyfarfod bendithiol yn
Rehoboth fore Sul y Pasg a'r plant yn
gwasanaethu. Gwnaeth pawb eu
gwaith yn raenus ac ôl paratoi ar bob
cyfraniad.

YN YR YSBYTY - Dymunwn adferiad
llwyr a buan i Mrs Marian Pritchard,
Bronallt, sydd wedi cael triniaeth
lawfeddygol yn ysbty Bangor.

ARHOLIAD SIROL - Balch oeddem o
glywed am lwyddiant pedwar o blant
Rehoboth yn yr Arholiad Sirol. Fe
wobrwyir David a Sian, Llys Awel a
Sharon ac Arwyn, Llanrug, yn y
cyfarfod misol yn Engedi
Caernarfon.



BECWS DEINIOLLEN

(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS
Dosberthir drwy'r fro
HEB UNRHYW DÂL YCHWANEGOL

YR ESGOB GODFREY GOODMAN

Dim ond am bedair blynedd y bu'r Esgob Goodman fyw yn Llanberis gan iddo ddianc yma am loches o Lundain rhwng 1643 a 1647 i dŷ o'i eiddo - Tŷ Du a safai y pryd hynny ar y tyrpeg rhwng Capel Curig a Chaernarfon. Eiddo iddo ef oedd y tir o gwmpas Tŷ Du i lawr at Llyn Padarn.

Yr oedd o dras uchel a bonheddig. Ganwyd ef yn Rhuthun, i deulu a adnabyddwyd am genedlaethau fel ab Goch, ond newidwyd yr enw i Goodman gan berthynas iddo o Landyrnog.

Gwelir 'Stryd Goodman' heddiw yn Llanberis, ond rhyfeddach fyth yw gweled 'Coch' mor aml o gwmpas yr ardal. Gwelir murddun bach wrth dalcen Tŷ Du a'i enw'n Ysgubor Goch. Mae yma Gapel Coch, Afon Goch, Plas Coch, Fron Goch, Allt Goch, Bryn Coch, Crib Goch, Merddyn Coch. Carwn gredu mai o barch i'r Cristion cadarn a didwyll yma y defnyddiwyd 'Coch' yn ein hardal.

Credai yr esgob yma fod modd uno eglwys Lloegr a'r Pabyddion; rhoes flynyddoedd lawer i'r ymdrech gan greu llawer

o elynion iddo'i hun. Taflwyd ef i gelloedd tywyll a gwlyb a'i chwipio a'i lwgu lawer gwaith. Cymerwyd ei eiddo a'i arian oddi arno, a bu bron iddo golli ei iechyd. Ond cred llawer fod yr eglwys yn Nghymru yn cydymdeimlo ag ef a bod iddo lawer o ffrindiau yn y cwmmpasoedd yma gan iddo allu dianc i Tŷ Du ac aros yma i wella. Yr oedd mewn cyflwr mor druenus pan ddaeth allan o'r carchar fel na allai wynebu ei deulu a'i ffrindiau yn Rhuthun.

Siarl I a deyrnasai yn y cyfnod yma, a chredai bod Esgob Goodman yn cynllunio'n ddrwg yn erbyn ei syniadau personol ynglŷn â'r eglwys yn Lloegr. Ond pwrpas mawr bywyd Godfrey Goodman oedd uno Cristnogion ei oes a'u hatal rhag rhyfela a lladd ei gilydd yn enw Cristnogaeth. Gwelwyd dau ryfel cartref a Rhyfeloedd yr Esgobion yn y blynyddoedd yma!

Ymhen dwy flynedd ar ôl dychwelyd o'r Esgob i Lundain fe ddiennyddiwyd Siarl I ym 1649. Hwyrach fod ei ddilynwr, Oliver Cromwell yn cydymdeimlo â'r Esgob gan i bethau dawelu tipyn ar ôl hyn!

Dewisodd naw esgob o Ogledd Cymu fel ymddiriedolwyr ar ystâd Tŷ Du a rhoddwyd gwerth ardrethol o £40 y flwyddyn arno yn 1654, ac ewyllysiodd i'r arian gael ei rannu ar addysg esgobion

a myfyrwyr o Ruthun.

Nid rhyfedd na fu Llanberis ar ei ennill o arhosiad Esgob Goodman yma, gan nad oedd tŷ wedi ei adeiladu ar ei ystâd am ddau gan mlynedd ar ôl ei farw. Os oedd y gŵr yma yn wir Gristion ni fuasai byth wedi cymeradwyo meddiant trwy brydles (leasehold) mor galed ar weithwyr cyffredin a gododd eu tai ar y creigiau rhwng Tŷ Du a Llyn Padarn!

Gwelir 'Tlodion Rhuthun' yn dal i elwa tipyn bach o ewyllys da Esgob Goodman er bod gwerth y bunt wedi crebachu!

Dilys Baylis

LLYFRAU

Cyhoeddwyd y canlynol yn ystod y mis a aeth heibio dan nawddogaeth Cyd-bwyllgor Addysg Cymru

Arweiniad Hindwaeth, - Glyndwr Harris. Christopher Davies.

Siani a Gŵyl y Blodau a Siani a'i Brawd Bach, Gwasg y Dref Wen. Pris £1.50 yr un.

Cylchoedd, John Hywyn, Cyhoeddwyd, D. Brown a'i Feibion. Pris £1.95.

Y Drudwy Dewr, Gweneth Lilly, Gwasg Gomer, £3.75.

Y Dewin a'r Ferch o Flodau, Gwasg Gomer. Pris £1.50

Robin Goch a Dryw Bach, D. Brown a'i Feibion, £1.50.

Yr Arad Gwyn, D. Brown a'i Feibion, £1.50 gan G.E. Thomas. Ganed yr awdur yn Unol Daleithiau America a bu'n byw yn Granville, Utica ac Efrog Newydd, cyn dod i Gymru a mynd yn ddisgybl i Ysgol Brynrefail, Arfon. Bu yn y llynges am bum mlynedd yn teithio ar longau bychain o gylch Affrica. Oddi ar hynny bu'n athro yn Lloegr ac yng Nghymru ac yn brifathro Ysgol Fourcrosses, Pwllheli. Bellach, mae wedi ymddeol ond deil i fod yn awdur prysur iawn. Hyd yn hyn cyhoeddwyd deg o'i lyfrau ffeithiol gan D. Brown a'i Feibion, Cyf., y Bont-faen dan nawdd Cynllun Llyfrau Darllen Cyd-bwyllgor Addysg Cymru. Cyhoeddir dwy gyfrol eleni, 'Yr Abad Gwyn', a 'Robin Goch a Dryw Bach' dan yr un cynllun, ac un gyfrol y flwyddyn nesaf, 'Y Gigfran Fawr'.

APÊL NANSI RICHARDS

Yn nyddiau olaf 1979 bu farw Telynores Maldwyn, Nansi Richards, a cholodd Cymru un o'i chymwynaswyr pennaf ym myd y delyn a cherdd dant. Collodd Cymru hefyd bersonoliaeth annwyl iawn a Chymraes i'r carn.

Cafodd ei chyfeillion eisoes gyfle i dalu teyrnged iddi dair blynedd yn ôl ym Mhafiliwn Corwen. Ond teyrnged undydd-unnos oedd honno. Er mwyn cael rhywbeth mwy parhaol penderfynwyd defnyddio elw o'r cyfarfod hwnnw fel sylfaen i Ysgoloriaeth ym myd y delyn a sefydlu Ymddiriedolaeth i ofalu am y gronfa ariannol.


Cynrychiolwyr o'r Gymdeithas Cerdd Dant, y Gymdeithas Alawon Gwerin a'r Gymdeithas Ddawnsio Gwerin yw'r Ymddiriedolwyr a chofrestrwyd yr Ymddiriedolaeth bellach fel elusen. Mae £800 yn y Gronfa, £200 ohono yn roddion a dderbyniwyd gan gyfeillion yn dilyn marwolaeth Nansi.

Yn eu cyfarfod diwethaf penderfynodd yr Ymddiriedolaeth y dylid diolch yn gyhoeddus i bawb a gyfrannodd hyd yn hyn. Ar yr un pryd teimlid nad oedd cronfa o £800 yn wir deilwng o gyfraniad aruthrol Nansi Richards nac yn arwydd terfynol o'n dyled iddi fel cenedl. Teimlid fod cannoedd, os nad miloedd, o gyfeillion Nansi ar hyd a lled Cymru - a'r byd o ran hynny - nad ydynt eto wedi cael cyfle i gyfrannu.

Apeliwn arnoch i ddefnyddio'r cyfle hwn - nid yn unig o ran parch i goffadwriaeth Nansi Richards ond hefyd er mwyn hyrwyddo'r safonau a'r gwerthoedd yr ymdrechodd hi drostynt yn ystod ei hoes.

Anfonwch eich cyfraniadau os gwelwch yn dda i'r Trysorydd, Derwyn Roberts, 7 Ffordd Grosvenor, Wrecsam, Clwyd. Diolch o galon.

*Yn gywir iawn,
Arfon Gwilym,
(Ysgrifennydd)*



Yr Hen Dŷ Du - fel ag yr oedd - llun wedi ei wneud gan y diweddar Arthur Williams, Llwyn Eilian, Llanberis.

SETIAU
TELEDU LLIW
AIL LAW
MEWN CYFLWR
RHAGOROL
SIOP TELEDU

**T
CEPAS**

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
(Ffôn: Llanberis 205
gyda'r nos)

Lle Newydd Sbon Ar Gyfer Noson Allan!

**GWESTY'R
FOELAS
LLANRUG**

(Perch. Richard a Meirwen Thomas)
FFÔN: CAERNARFON 4652

**PRYDAU BASGED BLASUS
BAR CLYD Â DEWIS DA O DDODYDD**

YSGOL LENYDDOL GREGYNOG

Gorffennaf 11-13 1980

DEUD STORI

Tâl: Aelodau preswyl: £19.50
Aelodau dyddiol: £4.00 + phrydau
bwyd.
Nos Wener:
8.00 Y Mabinogi - Dr Gwyn Thomas.
Dydd Sadwrn: 9.15 Y Stori Lafar - John
Owen Huws. 11.15 Y Stori yn y Bregeth
- Parch Idwal Jones.
5.00 Straeon yr Iwerddon - Athro J.E.
Caerwyn Williams 8.00 Orig o straeon
Dydd Sul: 9.00 Gwasanaeth
9.15 Y Stori Radio - Dafydd Huw
Williams
11.00 Y Stori Deledu - Gwenlyn Parry.
Trefnir yr Ysgol mewn cydweithrediad
ag Adran Efrydiau Allanol, Coleg y
Brifysgol, Bangor.
Manylion pellach oddi wrth
Norman Williams, Gymdeithas
Gelfyddydau Gogledd Cymru, 10 Tŷ
Cae Ffynnon,
BANGOR, Gwynedd. LL57 1ER. Ffôn:
Bangor 53248

TAN-Y-COED

SEIAT DOSBARTH – Cynhaliwyd Seiat Dosbarth Cylch Llanberis yng nghapel Tan-y-coed, Mawrth 26. Testun y Seiat oedd 'Tebyg i Fab y Dyn' a'r agorwr oedd y Parch Marcus Robinson, Llanberis. Daeth cynrychiolwyr o eglwysi'r dosbarth ynghyd ac wedi agoriad arbennig cafwyd trafodaeth fywiog.

DIOLCH – Dymuna Mrs Megan Williams, Dwyfor ddiolch i'w pherthnasau, cymedogion a'i chyfeillion am eu cadigrwydd iddi dros y cyfnod y bu'n yr ysbyty ac wedyn ar ôl dod adre. Da deall fod Mrs Williams yn parhau i wella ar ôl triniaeth lwyddiannus i'w llygad.

Hefyd dymuna Miss Carol Anne Jones, Pant Clyd, ddiolch i'w theulua'i chyfeillion a'i chymedogion am y cardiau pen-blwydd a'r anrhegion dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ar Ebrill 15.

Bu'r llythyrgludydd yn brys iawn yn yr ardal hon y mis hwn debygwn, yn cludo anrhegion a chardiau pen-blwydd.

Ar Ebrill 1 dathlodd Miss Delyth Wyn Jones, 3 Tai Tan-y-coed ei phen-blwydd yn un ar hugain. Ebrill 4 oedd dydd mawr Amllyn Llwyd Evans, Carwyn, ef yn 8 oed; fel y cyfeiliwyd uchod, ebrill 15 oedd dydd Carole, a'i chwaer Linda Wynne Jones yn dathlu ei phen-blwydd hi ar Ebrill 17. Llongyfarchiadau i'r pedwar a phob bendith i'r dyfodol.

LLONGYFARCHIADAU – i Bethan Lewis Parry, Ael-y-Bryn ar lwyddo yn yr Arholiad Gradd I yr Ysgol Gerddorol Frenhinol am chwarae piano.

Llongyfarchiadau hefyd i Manon Llwyd Evans, Carwyn ar lwyddo yn yr Arholiad Gradd II theori yr Ysgol Gerddorol Frenhinol.

Daeth Manon yn ail dan 12 oed am chwarae piano yn Eisteddfod Gadeiriol y Bontnewydd. Athrawes Manon yw Miss Clarice Williams, Llanberis. Mrs Roberta Griffith, Llanrug yw athrawes Bethan.

DAETH – teulu newydd i fyw i Bant-y-Bryngwyn – Mr a Mrs Chris Wood a'u pedwar plentyn – Anna, (10), Jake (9), Ruth (17 mis) a Nia (2 fis). Ganwyd Nia y diwrnod y sumudodd y teulu i'w cartref newydd.

Estynnwn groeso cynnes i'r teulu ifanc yma i'n plith. Er mai Saeson yw eu rhieni y mae Anna a Jake yn siarad Cymraeg yn rhugl. Yr wythnos hon y mae Anna yng nghanolfan yr Urdd yng Nglan-llyn, gyda pharti o'i hysgol.

MARW – Mawrth 28 bu farw Mrs Margaret Hughes, Caehoeden yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor. Bu Mrs Hughes yn aelod ffyddlon yn eglwys Tan-y-coed, a bu ei thad yng nghyfraith, Mr John Hughes, Caehoeden yn flaenor ffyddlon yn Nghan-y-coed yn nyddiau cychwyn yr achos. Cymerodd Mrs Hughes hithau ddiddordeb byw yng ngweithgareddau'r eglwys a'r Ysgol Sul. Derbyniodd blant yr Ysgol Sul yn hael ganddi o flwyddyn i flwyddyn. Cymeriad tawel a llednais oedd Mrs Hughes. Fe gollir ei chwmni tawel a'i gwên siriol o'n plith yn yr eglwys.

Cydymdeimlwn â'i mab Mr John Hughes, ei chwiorydd a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn hefyd â Mr Robert Blanchard, Y Llythyrdy a'r teulu yn y brofedigaeth a'u goddiweddodd hwythau. Mawrth 28 bu farw mam Mr Blanchard, Mrs Lucie Blanchard, yn y Drome, Ffrainc.

Yn gynnar bore Mercher, Ebrill 23 brawychwyd yr ardal gan y newydd trist am farw sydyn Mr Robert David Thomas, Bronant. Yr oedd yn bresennol yn oedfa bnawn Sul Tan-y-coed y Sul diwethaf; eto, colli cymeriad tawel a siriol o'n plith, a'r eglwys yn colli aelod ffyddlon arall. Cydymdeimlwn â'i frodyr a'i chwiorydd a'r teulu oll yn eu profedigaeth sydyn.

LLONGYFARCHIADAU – i Mr Allan Thomas, gynt o 1 Tai Bryngwyn a'i briod ar enedigaeth merch fach, Ebrill 22. Pob bendith i'r ferch fach a'i rhieni, heb anghofio taid, Mr Owen Wyn Thomas, 1 Tai Bryngwyn a brofodd lawenydd o fod yn daid unwaith eto ar Ebrill 22, ac ar Ebrill 23 profi tristwch o golli'n sydyn ei frawd, Mr Robert David Thomas.

W.J.GRIFFITH

**PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG**

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

**GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW**

GWRES BP



**Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical
Contractors.**

*Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.*

**Y LLYFR MAE KEITH BEST YN
CEISIO'I WAHARDD...**

To Dream of Freedom

Hanes llawn MAC a'r FWA, 1961-70



224 tud., 30 o luniau, £2.75

Y LLEWOD A'R LLYFFANTOD MELYN

gan DAFYDD PARRI

Y 23ain yn y gyfres
hira, rata, orau erioed
i blant yn Gymraeg
85c

Cyfres y Beirdd Answyddogol

Lodes Fach Neis

CARMEL
GAHAN 95c

CANEUON TECWYN-IFAN

20 o'i ganeuon gorau wedi'u trefnu i'r gitâr
£1.65

...a nifer o gardiau cyfarch newydd, doniol.
Mynna dy gopi o'n catalog 32-tud. – ar gael
am ddim gyda throad y post!


Y Lolfa

TALYBONT CEREDIGION SY24 5ER
ffôn Talybont (097086) 304

NEWYDDION DA ODDI WRTH AUSTIN MORRIS

10% ODDI AR BOB MARINA NEWYDD

Am gyfnod byr yn unig y cynigir y fargen hon. Yn awr gallwch brynu Marina 1300 am £177 yn llai na Ford Fiesta bach 950L, neu arbed £700 o gymharu â Chavalier 1300 dau ddrws. Mae'r Marina 1700 HL £716 yn rhatach na'r Cortina 1.6 GL ac yn cynnig llawer mwy o foethusion. Cofiwch hefyd am y partiau ac yswiriant rhad a Supercover – yn wir chewch chi ddim gwell bargaen yn unlle.



T.R. & S. EVANS

GAREJ MINFFORDDD BETHEL

Y Prisiau a argymhellir gan y gwneuthurwyr

Model	Cynt	Rwan	Arbed
1300 2 Ddrws	£3440	£3096	£344
1300 4 Drws	£3852	£3224	£358
1300L 2 Ddrws	£3721	£3349	£372
1300L 4 Drws	£3825	£3442	£383
1300HL 4 Drws	£4232	£3809	£423
1700 4 Drws	£3851	£3466	£385
1700L 4 Drws	£4094	£3684	£410
£700HL 4 Drws	£4531	£4078	£453
1300 Ystad	£4066	£3660	£406
1700 Ystad	£4317	£3886	£431
1700L Ystad	£4559	£4103	£456
1700HL Ystad	£4957	£4461	£496

Gostyngiadau swyddogol y gwneuthurwyr

**Austin
Morris**
With Supercover

Ffôn: Y Felinheli 670451

LLYTHYRAU

MALAN JONES

Annwyl Syr,

Carwn wneud sylw neu ddau ar erthygl Mrs. Mary Lloyd Williams a llythyr Mr. Robert Williams a ymddangosodd ychydig dros flwyddyn yn ôl ar Ddafydd a Malan Jones, Penlôn, Llanrug.

Cymerodd Dafydd enw cyntaf ei dad, John Griffith, Penrhos, fel cyfenw, er bod y gweddill o'i frodyr a'i chwaer, sef nain Mr. Williams, wedi cymryd y cyfenw Griffith. David Jones yw'r enw ar gofrestr priodasau Eglwys Llanrug pan briododd ym 1852. Mae'n wir bod John, yr ail fab, a ymfudodd i America wedi mabwysiadu'r cyfenw Griffith ar ôl ei daid.

Mary Owen oedd enw morynol Malan, merch Robert Owen, Dyffryn Twrog, Llanllyfni ac yn enedigol o blwyf Llaniestyn yn Llŷn. Yr oedd hi'n chwaer i Owen Roberts, taid y Dr. Kate Roberts (enghraifft arall o blant yr un rhieni yn mabwysiadu gwahanol gyfenwau).

Yr wyf yn ddyledus iawn i Archifydd Gwynedd am y wybodaeth hon, ac yn ddiolchgar iawn i Mrs. Mary Lloyd Williams a Mr. R. Williams am eu hysgrifau ar fy hen-daid a'm hen-nain.

Yn gywir,
Phylip Jones,
Manteg, Pentwyn,
Resolfen,
Ger Morgannwg.

Cilcaban,
5 Stâd Coetmor,
Bethesda
14.12.79.

Annwyl Olygydd,
A gaf gywiro un camagraff yn llith ddiddorol Perisfab ar Reilffordd yr Wyddfa a Rheilffordd Chwarel Dinorwig. Dyma'r frawddeg a all gamarwain yr anghyfarwydd: "Yn 1824 gwnaed ffordd haearn o chwarel Dinorwig i'r Felinheli, ac ar y lein honno y gwelwyd yr injan ager gyntaf yn sir Gaernarfon."

Mae rhan gyntaf y frawddeg yn hollol gywir ond rhaid cofio mai tramffordd geffyl oedd y ffordd haearn. Rhedai o Ddinorwig i lawr 'allt inclên' a thrwy Glwtybont' ac ar draws gwaelod plwyf Llanddeiniolen i'r Felinheli. Nid oedd injan ager bryd hynny!

Ym 1841-2 codwyd tramffordd geffyl arall ar hyd glan Llyn Padarn gan nad oedd y llall yn gallu delio â'r codiad enfawr yn y cynnyrch llechi. O 1848 ymlaen y cafwyd peiriannau stêm ar y lein honno - er i drac newydd gael ei osod ar lwybr y dramffordd i ddal y dranfidaeth drymach. Mae'r manylion yn 'The Padarn & Penrhyn Railways', Susan Turner, Gwasg David a Charles ac yn 'Canrif y Chwarelwr', Emyr Jones, Gwasg Gee.

Diolch i Perisfab am y llith. A wŷr rhywun am ddisgrifiad o'r 'allt inclên' ar waith? Neu beth am atgofion hen chwarelwr am y lein ar hyd Llyn Padarn?

Yn gywir iawn,
Dafydd Orwig.



Trwy law Mr E. Thomas. Llun Chwarelwyr Dinorwig 1920-22

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

Gwaith Coffaol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwy'r lleol

CANU'



CANU'R FRO

gan

Emlyn Jones, Borth y Gest

Daeth yr erthyglau ar "Ganu'r Fro" â thoreth o ymateb oddi wrth ddarllenwyr yr Eco, Dyma i chwi fwy o dameidiau i brofi - llun o Gôr Merched enwog Llanberis unwaith eto - ac yn dilyn hanesyn am Gôr Mawr neu Gôr Cymysg Llanberis gan Mr Emlyn Jones, London House, Llanberis gynt. Gyda llaw, oes gan rywun lun o gôr cymysg Llanberis. Byddai yn dwyn atgofion melys i lawer. Cysylltwch ag unrhyw weithiwr o'r Eco yn eich bro.

Diddorol iawn yw hanes Canu'r Fro, Llanberis. Ni fu fawr gylch lle 'roedd cymaint o fynd ar Eisteddfodau, a chorau.

Yr oeddwn yng nghanol canu Llanbêr ym mhob côr, ac fel unawdydd. Dyma un stori am gôr cymysg Charles Owen. Fe gododd gôr yn fuan ar ôl Rhyfel 1914. Arweinydd y gân yn Nant Padarn oedd Charles Owen, a'r teulu Jonah Owen fu'n gwneud y gwaith hwnnw ar hyd y blynyddoedd.

Annwyl Gyfaill,

Cynhadledd Taliesin y Pasg
Amgaeaf wybodaeth ynglŷn â chynhadledd flynyddol yr Academi Gymreig a drefnir eleni ar y cyd ag Adran Allanol Coleg y Brifysgol Caerdydd.

Cynhelir y gynhadledd yn Nhrefeca, Powys ar y penwythnos ar ôl y Pasg.

Cost mynychu'r gynhadledd gyfan fydd £19. Codir tâl ychwanegol o £1 am y daith bws.

Thema'r gynhadledd fydd 'Yr Artist a'i Gyhoedd Heddiw', a byddwn yn trafod cerddoriaeth, drama, barddoniaeth ac arlunio. Byddwn yn dangos ffilm newydd y Bwrdd Ffilmiau 'Teisennau Mair' ar y nos Sadwrn yn dilyn darlith gan gyfansoddwr cerddoriaeth y ffilm, ar dechneg cyfansoddi cerddoriaeth o'r fath.

Os ydych am ddod i'r gynhadledd, wnewch chi ddychwelyd y ffurflen amgaeedig ynghyd â'r blaendal mor fuan ag y bo modd, os gwelwch yn dda.

Gan obeithio eich gweld yn Nhrefeca.

Cofion cynnes,
Ann Beynon,
(Ysgrifennydd)



HOGIAU
PENRHYDD ROLLER
GARRET

Mr. Maldwyn Hughes, Cwm-y-glo;
Mr Idwal Jones, Clwt-y-bont; Mr Tom Griffith, Llanrug; Mr Griffith T. Jones, Deiniolen.

R FRO



Côr llwyddiannus iawn fu hwn yn ennill yn amal. Ond am y stori - cystadlu yn Eisteddfod Pwllheli, 1925. Mae'r manylion yn y rhaglen honno.

Yr oedd saith côr ar y rhestr, a'n Côr ni i ganu gyntaf. Dyna ni wedi cerdded ar y llwyfan, yn dachus fel arfer, Charlie o'n blaenau. Caerwyn, y dyn bach bywiog hwnnw o Sir Fôn oedd yr arweinydd. Dyma fo'n gofyn i'r beirniaid a oeddynt yn barod. Ond yr oedd un ar ôl. Daethpwyd i gytundeb o'r diwedd ein bod i ganu, ac na fyddai'r pedwerydd beirniad i farnu yn y gystadleuaeth. Gynted

ag i ni ganu'r darn dyma'r Beirniad i mewn ac yn mynnu dod i gymryd rhan gyda'r ail ddarn ac i ni ganu'r darn cynta eto.

Caerwyn yn gofyn, "Wnewch chwi ganu eto?", a rhyw lais o ganol y baswyr yn ateb, "Na wnawn". Caerwyn yn gwylltio ac yn dweud fod yn rhaid i ni ailganu. Y llais eto, yn dweud, "Paid â gwylltio y Di . . . bach". Wedi dipyn o ddrw, canu fu raid, ac wrth lwc gorffen yn llwyddiannus.

Dylai fy hen ffrind, Huxley Thomas gofio'r tro.

LLYTHYRAU

Cilcapan,
5 Stâd Coetmor,
Bethesda.

Annwyl Olygydd,

Cefais flas eithriadol ar ddarlenn 'Hyfrydlais Leila Megane' gan Megan Lloyd-Ellis. Yn ôl yr awdur symudodd Leila Megane o Fethesda i Bwllheli pan oedd yn dair oed ac yna, pan oedd yn wyth oed, bu farw ei mam. Ar dudalen 15 ceir y frawddeg hon:

'Yr oedd yn dda fod Kate Prince yno i helpu i ofalu am y plant lleiaf, ac erbyn hyn wedi dod yn gyfarwydd a hylaw gyda gorchwylion y ty.'

Credaf fod rhywbeth bach o'i le yma. Fy nain (Mrs Jones, Llys Gwynedd, 10 Caradog, Deiniolen) oedd Kate Prince (merch tafarn y Prince of Wales). Gwn iddi fynd i'r rhinws i Fethesda i fagu Leila Megane. 'Roedd y gantores enwog yn meddwl y byd o'r hen wraig a deuai i edrych amdani i Deiniolen o dro i dro.

Nid ym Mhwlheli eithr ym Methesda y bu 'Kate Prince' yn gofalu am Leila Megane a'r teulu. Ond ai 3 oed oedd Leila Megane pan symudodd o Fethesda i Bwllheli? Go brin y buasai merch fach dair oed wedi cofio mor annwyl am y forwyn fach ar hyd y blynyddoedd. Pwy fedr roi goleuni ar y mater?

Yn gywir iawn,
Dafydd Orwig.

O.N. Mae'n bosibl wrth gwrs mai tad Leila Megane a'i hatgoffodd am y forwyn fach.

Ystumgwern,
Rhoscefnhir,
Ynys Môn.

Annwyl Olygydd,

Mewn cyfarfod diweddar o Gangen Caernarfon o Undeb Genedlaethol Athrawon Cymru, penderfynwyd yn unfrydol i wrthwynebu unrhyw fwriad i gladdu sbwriel niwclear yng Ngwynedd, neu unrhyw fan arall.

Eisoes rhoddwyd cyhoeddusrwydd i beryglon claddu'r gwastraff hwn ac ni raid eu nodi yma. Digon yw dweud ein bod ni fel athrawon yn rhagweld y bygythiad echrydus i'r cenedlaethau a ddaw. Yn wir, aed gam ymhellach yn y cyfarfod: gwrthodwyd yn llwyr yr egwyddor o ddefnyddio ynni niwclear fel ffynhonnell egni i'r dyfodol. Teimlwn yn gryf am hyn oherwydd y damweiniau diweddar yn yr Unol Daleithiau. Gwrthwynebw'n unrhyw fwriad i godi Gorsaf Niwclear arall yng Ngwynedd. Mae gennym fwy na'n siâr yma'n barod a does neb ohonom yn dymuno ailadrodd Harrisburg ym Môn na Meirion.

Galwn ar ein cyd-athrawon a'n cyd-Gymry i uno'n gadarn yn eu gwrthwynebiad i'r bygythiad difrifol hwn, fel y gallwn sicrhau ein bod yn trosglwyddo Cymru ddiogel i'n plant a'u plant hwythau.

Yn ddiffuant iawn,
Rhys Wyn Parri,
(Cadeirydd),
Dafydd Idriswyn
(Ysgrifennydd).

LLUN YSGOL BACH BRYNREFAIL

Syr,

Yr athrawes ar y dde yn y llun, nad yw Miss Blodwen Owen yn sicr pwy ydoedd, oedd Miss Nesta Humphreys, Elidir View, Dinorwig, merch Mr John Humphreys, y Stiward Gosod. Priododd tua amser y llun â'r Parchg. Wm. Eilian Davies, Mur Mawr, Llanberis a fu wedyn yn Gurad yng Nghorwen ac Aberdâr. Ymfudodd y teulu yn ddiweddarach i America.

Mab iddynt yw Mr John Eilian Davies a fu'n byw am flynyddoedd gyda'i nain, Mrs Humphreys, yn 2 Rhes Efrog, Llanberis. Ymfudodd yntau i Montreal tua 1948. Tra bu yn Llanberis byddai John Eilian yn gwasanaethu fel Darllenydd Lleyg yn eglwys i'r cylch ac yn fawr ei barch. Dywed Esgob Bangor yn ei ragymadrodd i Tros Bont Penllyn iddo ei gyfarfod ym Montreal yn 1962 a'i "fod yn un o benaethiaid mawr masnach Canada". Ymwelodd â'r ardal rhyw ddwy flynedd yn ôl.

H. Thomas,
Llannor.

PWY SYDD ISHIO MYND AR Y TI FI?

Mae cwis Cymraeg newydd ar y gweill gan BBC Cymru. Ei enw ydy 'Gair i Gall' ac fe fydd Hywel Gwynfryn, sydd mor ddifyr ar y radio bob bore gyda 'Helo Bobol', yn cymryd yr awenau.


Fe fydd y pwyslais ar hwyl ac fe fydd gwobrau. Felly, os hoffech fod ar y teledu, dyma'ch cyfle.

Mae Hywel yn chwilio am ŵr a gwraig, parau fel ewythr a nai, modryb a nith, modryb a nai, tad a merch ac hyd yn oed berthnasau yng nghyfraith. 'Does dim uchafswm oed ond rhaid i chi fod dros 16 mlwydd oed. Recordir y rhaglenni yng Nghaerdydd gan ddechrau yng nghanol mis Mai. Fe fydd angen cynulleidfa arnom ni hefyd i ddod i wyl i'r hwyl. Felly os nad ydych am gystadlu, beth am gasglu llond bws o bobl i ddod i ymuno â ni ar brynhawn dydd Sadwrn.



Mr Eurwyn Jones, yr Arweinydd gyda Mr Dafydd Price, llywydd pwyllgor y ganolfan, ar y llwyfan.

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



**BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)**

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

LLANBERIS

CRONFA CYFEILLION Y GANOLFAN IECHYD - Ar nos Wener, Chwefror 22 dechreuwyd menter newydd yn y pentref drwy gynnal noson goffi a stondinau. Amcan y fenter hon oedd codi arian i bwrcasu haenoglobinometer i'r ganolfan iechyd leol. Cafwyd noson eithriadol o lwyddiannus gyda help staff y ganolfan ac amryw gyfeillion caredig. Daeth y swm syfrdanol o £631 i law a phenderfynwyd ddodi'r arian yma mewn coffr arbennig. Penodwyd y cyfeillion canlynol ar y pwyllgor i gynrychioli'r ardalwyr, sef Mr Eurwyn Jones, trysorydd; Mr Frances Jones, Mr Gwynfor Williams, Mr Trevor Williams a Mrs Mair Roberts, ysgrifennydd. Bu'r ymdrech mor llwyddiannus yn ariannol fel y bydd yn bosib i brynu'r peiriant gwaed a llawer o bethau eraill er budd pawb. Yn ychwanegol i'r swm uchod a gasglwyd derbyniodd y gronfa rodd helaeth gan deulu'r diweddar Mrs M.B. Morris, 42 Dôl Elidir er cof amdani. Dymuna'r meddygon a'r staff ynghyd â'r Pwyllgor ddatgan eu diolchgarwch diffuant i bawb a fu yn gweithredu ym mhob modd yn y fenter lwyddiannus hon.

MARWOLAETHAU - Mr Richard Jones, Glasfryn - Yn ysbyty Môn ac Arfon ar y 5ed o Ebrill bu farw Mr Richard Jones, Glasfryn. Bu'n wael am amser maith cyn symud i'r ysbyty, a brwydro'n ddygn y bu 'Dic' ar hyd y misoedd, gan herio ei salwch a mynnu ymlwybro yma ac acw hyd yr ardal.

Roedd ei fryd ar gerddoriaeth a chofir ef yn cael hwyl ar arwain cymanfaeoddd canu. Byddai wrth ei fodd gyda chynulleidfawr yn gwrandao ar ei arweiniad. Byddai'n ymddiddori hefyd yn y Clwb Pêl-droed lleol, ac yn ffyddlon yn eu pwyllgorau a'r gemau wythnosol.

Rhoddai ei gefnogaeth i bob achos da - chwith i Bwyllgor yr Henoed a phwyllgorau'r Carnifal a'r Cyngor Cymuned ar ei ôl. Cydymdeimlir a'i unig fab, Arwel a'i deulu, a hefyd ei frawd a'i chwaer yn eu colled.

Claddwyd ei weddillion ym mynwent Nant Peris ar ôl gwasanaeth cyhoeddus yn eglwys Preswylfa, lle bu'n arweinydd y gân am flynyddoedd. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion M. Robinson a W.O. Roberts, gyda Mr Idwal Roberts wrth yr organ.

Mr R.H. Evans, Gwynllys - Yn ei gartref, Gwynllys, Stryd Fawr ar Ebrill 4 bu farw Mr R.H. Evans yn 71 mlwydd oed.

Un o fechgyn y pentref ydoedd, a bu'n gweithio fel un o swyddogion Chwarel Dinorwig am flynyddoedd. Roedd yn fawr ei barch gan bawb a'i hadwaenai ef, yn gymeriad tawel a dymunol - yn aelod ffyddlon o Eglwys Sant Padarn, lle y daeth llw mawr o'i gyfeillion ynghyd i ffarwelio ag ef.

Gwasanaethwyd gan y Canon Alun Jones, a'r Parch Eric Owen, gyda Mr Huxley Thomas wrth yr organ.

Estynnwn gydymdeimlad i'w wedd, hefyd i'w fab a'i deulu, ei frawd, ei chwaer yng nghyfraith a'r teulu oll.

Mrs Mary Griffiths - Bu farw un o drigolion hynaf yr ardal - sef Mrs Mary Griffiths, Tai Plas Tirion. Roedd yn un o aelodau ffyddlonaf Eglwys Sant Padarn. Cymeriad hynod o dawel a dymunol, bob amser yn barod ei chymwynas.

Claddwyd hi ym mynwent Llanrug ddydd Sadwrn, Ebrill 19 gyda gwasanaeth yn Eglwys Sant Padarn a'r Parch Gwynfor Williams, Llanrug yn gwasanaethu yn absenoldeb Canon Alun Jones.

Cydymdeimlir â'i hunig ferch, Mrs A.M. Williams, Llanrug a'i wyrion yn eu profedigaeth.

DIOLCH - Dymuna Mrs Megan Evans a David, Gwynllys, ddiolch i'w ffrindiau a'u cymdogion am bob caredigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Hefyd am y llw cardiau a llythyrau a dderbyniwyd. Yn arbennig dymunant ddiolch i feddygon a staff Ysbyty Bryn Seiont am y gofal tyner a roesant i'r diweddar Mr R.H. Evans.

LLONGYFARCHIADAU - i Bethan Bryan, Llwyn Eilian, ar ei dyweddiad â Robin Howdin, o Lanbedr Pont Steffan, Dyfed.

NOSON GOFFI - Nos Iau, Mai 15 yn y Ganolfan cynhelir Noson Goffi ac arwerthiant dan nawdd Mudiad yr Ysgolion Meithrin i ddathlu 'Wythnos Gŵyl Ysgolion Meithrin'. Bydd y drysau'n agored am 6.30 - pris mynediad - 20c.

CLWB Y MAMAU - Mr J.H. Hughes, prifathro Ysgol Dolbadarn fu'n annerch aelodau'r clwb. Mwynhawyd ei araith yn fawr iawn gan y mamau ieuainc, a diolchwyd iddo gan lywydd y clwb, Mrs Carys Hughes.

CYDYMDEIMLAD - Estynnir cydymdeimlad â Mrs Megan Owen, Awelon, Stryd Yankee, ar farwolaeth ei mam ym Methesda.

DIOLCH - Dymuna Mrs Megan Owen ddiolch o galon i bawb a fu mor garedig tuag ati yn ystod ei phrofedigaeth o golli ei mam. Dymuna ddiolch yn arbennig i Mrs Helen Parry, Stryd Turner am ei pharodrwydd gydag ateb y ffôn, ddydd a nos a rhedeg â'r negesau i dy Mrs Owen.

PRIODI - Yng Nghaernarfon ddiwedd mis Mawrth priodwyd Melfyn Roberts, mab Mrs Ann Roberts, a'r diweddar Huw Roberts, 25 Hafod Olau, Deiniolen, â Christine, merch hynaf Mr a Mrs Hugh Griffith, 7 Llainwen Isaf.



Christine a Melfyn Roberts ar ôl eu priodas yn ddiweddar.

Hefyd ar Ebrill 7ed yn Eglwys y Santes Helen, Caernarfon, priodwyd Annette Maria, merch Mr a Mrs E. Knox, Bron Haul, Llanrug â John Wyn, mab hynaf Mrs Margaret Roberts a'r diweddar John Roberts, Maes Padarn.

Ein dymuniadau gorau i'r ddau bâr ieuanc yma, ar ddechrau eu bywyd priodasol.

NEWID AELWYD - Yn ystod yr wythnosau diweddar symudodd Mr a Mrs Morris, Coes a Mr a Mrs T. Pritchard, Maes Padarn i'r cartrefi henoed newydd yn Llanrug. Chwith mawr i drigolion Llanberis yw colli y

ddau deulu yma. Roeddynt mor ffyddlon i'w heglwys, yn barod eu cymwynas a'u cydymdeimlad bob amser. Dymunir iddynt bob hapusrwydd a llawer blwyddyn ddedwydd ar yr aelwydydd newydd.

CASGLIAD - Gwnaethpwyd casgliad sylweddol iawn yn ystod y mis tuag at Gronfa Ymchwil y Galon. Diolch i'r casglyddion am eu hymdrechion llwyddiannus: Mrs Catherine Ll. Williams, £4.55; Miss Gwyneth Parry, £7.31; Miss Heather Roberts, £4.11; Bethan Jones a Petula Williams £7.11; Bethan a Janet Hughes, £4.29; Bethan a Carys Jones a Cheryl Owen, £18.26.

CLWB METHEDIG - Mae Clwb Methedig Eryri wedi colli aelod ffyddlon iawn eto, sef Mrs M. Griffiths, 2 Ger Afon, Llanberis a hithau yn 96 mlwydd oed. Hi oedd yr aelod hynaf, a bydd chwith inni yn y Clwb o weld ei sedd yn wag. Dydd Llun, Ebrill 14 aeth y Clwb i arddangosfa'r methodig yn oriel Pendeitsh, Caernarfon. 'Roedd aelodau o'r Clwb yn arddangos gwaith yno.

YMUNO Â'R HEDDLU - Mae John, mab Mr a Mrs Kennedy, Stryd Fawr, wedi ymuno â'r heddlu. Ar ôl gadael Ysgol Brynrefail aeth i'r Coleg Normal, Bangor lle cafodd yrfa lwyddiannus, ond methodd â chael swydd i ddysgu. Mae yng Ngholeg yr Heddlu ar hyn o bryd, a dymunwn bob llwyddiant iddo.

GARTRE' - Yn ystod gwyliau'r Pasg bu'r Wren Nia Jones, Llwyn Eilian gartre am ychydig ddyddiau. Mae yng Ngholeg y Llynges yn Portsmouth.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Cafwyd arddangosfa o grochenwaith gan Christopher Bourne, yng nghyfarfod y mis o'r Sefydliad. Croesawyd ef gan Mrs B. Humphreys, Nant Peris, hefyd estynnodd groeso adref i Mrs Janet Davies, Snowdon Garage, a chydymdeimlodd â Mrs Menna Jones ar ôl profedigaeth.

Y CLWB IEUENCTID - Mae llun y tîm pêl-droed 5 bob ochr oedd yn fuddugol yng nghystadlaethau Cymdeithas Clybiau Ieuentid Cymru ar y dudalen chwarae.

FACHWEN

DIOLCH - Dymuna Mrs Maggie Foulkes, Garnedd Wen ddiolch yn garedig i'r teulu a'r holl gyfeillion a ddymunodd yn dda iddi ar ei phen-blwydd yn naw deg oed ar Sadwrn y Pasg. Diolch am yr anrhegion, galwadau ffôn a thros gant o gardiau a dderbyniodd. Diolch yn arbennig i Mrs Mary Jones, Craig y Bella, Fach Wen am ei gofal ohoni yn ystod y gaeaf. Diolch yn fawr iawn i bawb.

CEUNANT

MARW - Mawrth 22 yn Ysbyty Môn ac Arfon bu farw Mrs M. Hughes, Caehoeden. Bu'r angladd ddydd Mercher, Ebrill 26 ym mynwent Llanrug gyda'r Parch. W.O. Roberts yn gweinyddu. Cydymdeimlwn â'i mab, John Ellis a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Bu farw Mrs Owen, Glan Gors ar Ebrill 2 yn 89 mlwydd oed. Bu'r angladd ym mynwent Caeathro ar Ebrill 5 yn dilyn gwasanaeth yn y tŷ. Gweinyddwyd gan y Parch D.J. Roberts.

O'R YSBYTY - Croeso adre o'r ysbyty i Mr Evan Parry, Bodafon, Mrs E. Thomas, Arwelfa a Mr Gwyn Jones, Garth. Dymunwn adferiad buan iddynt.

DYCHWELYD - Yr wythnos hon mae Eira Wyn, Tan y Ffordd gynt, yn dychwelyd i Awstralia gyda'i gŵr, Raymond Peters a'u plant, David a Megan. Bwriadant ailgartrefu yn Sydney. Dymunir bob hapusrwydd iddynt.

CYNGHRAIR GWRTH-NIWCLEAR CYMRU

MAE cynlluniau arfaethedig y Llywodraeth yn Llundain i archwilio ardaloedd yng ngogledd Cymru, (rhaf efallai ym mro'r Eco) ar gyfer claddu sbwriel niwclear ymbelydrol ynddynt, wedi creu protestiadau a gwrthwynebiad ffyrnig. Mae nifer helaeth o bobl yn y fro hon yn gweld y bygythiad niwclear fel un o'r bygythiadau mwyaf i wynebu dynoliaeth.

Oherwydd hyn, da oedd clywed am lansio Cyngghrair Gwrth-niwclear Cymru mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn Y Deml Heddwch, Caerdydd, ddydd Sadwrn, Ebrill 26. Mae'r gynghrair newydd yn gwrthwynebu tomennydd gwastraff ymbelydrol, a chodi gorsafoedd niwclear yng Nghymru. Cafwyd cefnogaeth i'r Gynghrair yn y cyfarfod agoriadol oddi wrth Blaid Cymru, y Blaid Lafur, y Rhyddfrydwyr, y Blaid Ecologaidd, yr Undebau a grwpiau amgylchedd.

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

DEINIOLEN

Ffôn: Y FELINHELI 670124

CYFARFOD CYFFREDINOL YR ECO

Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol Eco'r Wyddfa yn neuadd y pentref, Bethel nos Fercher Ebrill 9. Cadeiriwyd y noson gan ohebydd Bethel, Mr Geraint Elis.

Siomedig iawn fu'r ymateb, unwaith eto, o safbwynt y nifer o'n darllenwyr a ddaeth i'r cyfarfod. Ond er mai 13 yn unig a fentrodd i Fethel llwyddwyd i wyntyllu rhai materion a chafwyd trafodaethau buddiol.

Cydymdeimlwyd, yn ei absenoldeb, â Mr Arwel Jones y golygydd erthyglau, yn ei brofedigaeth o golli ei dad.

Cafwyd arolwg o'r flwyddyn drwy adroddiadau'r trefnyddion a'r swyddogion. Dyma grynodeb ohonynt yn ôl trefn eu cyflwyno.

Mr Twrog Jones, Golygydd Newyddion Cyffredinol: Diolchodd am bob cymorth a gafodd yn ystod y flwyddyn i lunio tudalen flaen bob rhifyn – sef ei brif gyfrifoldeb. Ar yr un pryd apeliodd, unwaith eto (fel ag a wnaeth flwyddyn yn ôl) ar i fwy o bobl adael iddo wybod os oes deunydd storiâu blaen yn eu hardaloedd.

Diolchodd Mr Arwel Jones, y Golygydd Erthyglau (drwy Mr Twrog Jones i'r holl gyfrannwyr i'w adran ef o'r papur. Nododd mai gormod o ddeunydd oedd ei "broblem braf" ef. Ar ôl pedair blynedd o fod wrth y llyw teimlai ei bod

yn bryd cael gwaed newydd i ofalu am erthyglau'r Eco ac anogodd y cyfarfod, pan ddeuai'r amser i ddewis swyddogion a threfnyddion, i beidio a'i ystyried ef. Eglurodd na olygai hyn ei fod eisiau torri'n gyfangwbl ei gysylltiad â'r papur.

Mr Tony Elliott, Golygydd Newyddion Pentrefi: Diolchodd i'r holl ohebwyr pentrefi am eu gwaith da yn casglu'r deunydd ac am eu cydweithrediad parod. Soniodd fel yr hoffai weld rhagor o luniau yng ngholofnau'r pentrefi.

Mr Dafydd Evans, Golygydd Chwaraeon: Wrth ddiolch i'w holl gydweithwyr mynegodd yntau fel Mr Arwel Jones ei awydd i weld rhywun arall yn gofalu am yr adran y bu ei stamp ef arni am bedair blynedd. (Gweler 'Gair o ddiolch', tud. 16.)

Mr John Roberts, Trefnydd Hysbysebion: Dywedodd fod y cyfanswm incwm dros y flwyddyn ddiwethaf yn £1427.60, neu gyfartaledd o £129 y rhifyn. Roedd hyn yn cymharu â £102 y rhifyn yn 1978-9, £83 y rhifyn yn 1977-8 a £58 yn 1976-7.

Diolchodd i'r hysbysebwyrr rheolaidd yn arbennig am eu cefnogaeth barod. Nododd y bu cynnydd sylweddol yn nifer yr hysbysebwyrr Nadolig a'r hysbysebwyrr o'r tu allan i'r fro. Roedd tystiolaeth bendant o sawl cyfeiriad fod Eco'r Wyddfa yn bapur a ddenai ymateb da. Diolchodd i'r darllenwyr am gefnogi'r hysbysebwyrr ac anogodd hwy i barhau i wneud hynny yn y dyfodol.

Mr Gwyn Oliver Jones, Trysorydd:

CYFRIF INCWM A GWARIANT AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 1980

Gwariant		Gwerthiant	Incwm
Costau Argraffu	4221.67	Hysbysebion	3345.06
Costau ffotograffu	294.71	Rhodion	1427.60
Stampiau, labelau etc.	80.08	Grant	104.13
Ffôn a threuliau	407.50		250.00
Costau banc	3.96		
Gwobrau	11.00		
Costau cyfarfod blynyddol	3.00		
Incwm yn fwy na gwariant	104.87		
	5126.79		5126.79

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 1980

Cronfa'r Eco 1.4.79	885.68	Arian yn y banc	2370.91
Elw am y flwyddyn 1979-80	104.87	Arian heb ei dderbyn	1315.84
	990.55		
Dyledion	2696.20		
	3686.75		3686.75

Ar hyn o bryd ymdengys fod y sefyllfa ariannol yn eithaf boddhaol ac nid ydym yn rhagweld y bydd rhaid codi pris y papur i'n darllenwyr yn y dyfodol agos onibai am (i) unrhyw godiad sylweddol ym mhrys argraffu; (ii) ostyngiad yn nifer ein hysbysebwyrr a (iii) gostyngiad yn ein gwerthiant.


Ffurfiwyd pwyllgor cyllid Eco'r Wyddfa – yn cynnwys y Trefnydd Busnes, Trysorydd, Trefnyddion Hysbysebion a Gwerthiant yn foddhaol iawn.

Mr Ian Pierce, Trefnydd Gwerthiant: Gwerthiant (yn enwedig yn siopau Caernarfon) – yn dal fel ag yr oedd – sef tua 2,500. Awgrymodd y dyldid codi'r pris

i'r prynwyr drwy'r post gyd-redeg â chostau cludiant y Swyddfa Bost.

Ail etholwyd yr un swyddogion a threfnyddion ag o'r blaen – ar wahân i'r swyddi golygydd erthyglau a golygydd chwaraeon. Mr Dafydd Whiteside Thomas o Lanrug fydd y golygydd erthyglau o'r rhifyn nesaf ymlaen. Bu rhaid gohirio unrhyw benderfyniad ynglŷn â'r swydd arall hyd y cyfarfod a gynhelir yn Neuadd Bethel ar Fai 8ed. Cyfarfod arbennig fydd hwn i drafod cynnwys a ffurf Eco'r Wyddfa. Bydd croeso i unrhyw un sy'n teimlo y gall gyfrannu tuag at y papur mewn unrhyw ffordd fod yn bresennol ym Methel am 7.30.

DIWRNOD AGORED DINORWIG



Diwrnod Agored Dinorwig. Un o'r golygfeydd syfrdanol a welwyd gan y miloedd a fynychodd safle y BCCT ddydd Sadwrn, Ebrill 26. I chwi gyn-chwarelwyr – dyma 'Wellington Pŵl' heddiw!

Y DIWEDDAR R.E. JONES LLANBERIS

Annwyl Olygydd,
Testun yr Englyn Unodl Union yn y Genedlaethol yn Wrecsam 1933 oedd 'Aderyn y To'. Rhannwyd y wobwr rhwng y diweddar Barchedig William Morris, Caernarfon – ond Conwy bryd hynny a'r diweddar Mr R.E. Jones, Llanberis. (Y Diweddar Henadur R.E. Jones, Caernarfon yn ôl Seren Gomer, Tachwedd 1936).

Enw cyfarwydd iawn i bobl y pethe ydi'r enw cyntaf uchod ond enw gweddol ddieithr iddynt ydi'r ail. Felly rwy'n gofyn am

gymorth darllenwyr eich papur i ddod i wybod mwy am Mr Jones.

Ydi hi'n bosibl cael peth o hanes ei fywyd ac atgofion amdano? Cael darllen ychwaneg o waith barddonol? Cael gweld llun neu luniau ohono? Efallai y daw erthygl amdano o'r wybodaeth a ddaw i law ryw ddydd.

Yn ddiffuant,
Dafydd Islwyn
Teifi

106 Heol Llancayo
Bargoed
Morgannwg Ganol

AR WERTH

Yn Llanrug, Teledu HMV 20 du a gwyn yn gweithio'n dda, £15 cyntaf. Ffôn: C'fon 5605.

GILFACH, 13 STAD Tŷ HEN

Tŷ dan yr un to gyda thair llofft. Gwydr deublyg i'r ffenestri a'r drysau allanol. Cyntedd, parlwr/ystafell fwyta, cegin, bathrm a thoilet wedi eu teilsio. Gerddi yn y ffrynt a'r cefn. Y garej ar wahân i'r tŷ.

YN CYNWYS CARPEDI A
MANION ERAILL

FFÔN:
WAUNFAWR
594

THEATR SEILO

ar nos Wener Sadwrn, Mai 9/10fed am 7.30 o'r gloch

Cwmni Drama

Llwyndyrys

ger Pwllheli

(buddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon a Chaerdydd)

yn cyfwlno

Y TAD A'R MAB

gan

Y Dr John Gwilym Jones


Tocynnau ar werth yn Siop y Pentan, Caernarfon neu ffoniwch Caernarfon 2708

Pris: Oedolion £1, plant 60c.

BENTHYCA RECORDIAU

Gellir benthyca recordiau a neu gasetiau yn awr o Lyfrgell Llanberis. Yn y stoc y mae deunydd clasurol yn ogystal â phoblogaidd – yn Gymraeg a Saesneg.

TANYSGIRIFAD: £2.50 y flwyddyn
Y mae casgliad o recordiau a chasetiau i'w gael hefyd yn y Lyfrgell ym Mangor, Pwllheli a Phencadlys Arfon Dwyfor yng Nghaernarfon.



**GWASANAETH
LLYFRGELL
GWYNEDD**

STORFA

Mace
O.R. & M.
PARRY
Sgwâr
Llanrug

Caernarfon 2790

Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd

**MODURDY
MENAI**



**FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI**

Ffôn: Portdinorwic 670882
Perchennog: J. Evans

Ffiniau'r Gorffennol

Pigion o Dyddiadur 1945 Fy Nhaf

Ionawr

Llun 1af: Heddiw gwnaed Lloyd George yn Iarll, sef Earl Lloyd George of Dwyfor!

Iau 4: Eira cyntaf yma heddiw.

Gwener 26: Oer ofnadwy, Llyn Peris wedi rhewi.

CHWEFROR

Mercher Lludw 14: Bomio Germani neithiwr hefo dros tair mil o awyrennau. Heddiw bu farw Elias Evans Ty'n y Gorlan 98 a hanner mlwydd. Efoedd dyn hynaf yr ardal. Lloyd George yn wannaidd iawn.

MAWRTH

1af. Dydd Gŵyl Ddewi. Oerwynt o'r Gogledd Orllewin yn brathu hyd y cymalau a'r môr.

Mercher 14: Plannu tatws cynnar heddiw a shallots.

Sadwrn 24: Mynd â blodau i'r fynwent.

Sul 25: Sul y Blodau. Llawer iawn wedi bod yn y fynwent gyda blodau. Llun 26: Heno bu farw yr Iarll Lloyd George yn ei gwsg 8.35 pm.

EBRILL

Sul 8: Parchedig Tom Nefyn Williams yn pregethu ym Mhontrhythallt.

Llun 16: Y diwrnod cynhesaf eleni, y tymheredd yn 96 yn y sianel. Wenoliaid yn gwibio. Ugain mil o'n carcharorion wedi eu rhyddhau heddiw o Germani.

Mercher 18: Y gog yn canu a'r dryw bach yn whislo. Neidr ar ffordd Cae Howel. Diwrnod poeth iawn.

Gwener 20: Postio gramophone Record i Mr E.H. Williams i Iceland.

Llun 23: Tynnu ymaith y rheol 'Black Out' heddiw. Y Rwsiaid wedi cyrraedd Berlin.

Llun 30: Rhew, eira, cenllysg, barrug, glaw, heulwen, gwynt. Y gwlydd tatws yn ddu. Mussolini wedi ei saethu'n farw yn ei gefn.

MAI

Dydd Mawrth 1af. Pawb yn dweud fod Hitler wedi ei ladd. Methu coelio.

Llun 7. HEDDWCH

Am ddau o'r gloch prynhawn heddiw cyhoeddwyd fod Germani wedi ildio yn ddiamod. Bydd gwyliau yfory a thrennydd.

Sul 13. Y mae gennym ni ac America chwe miliwn o'r Germaniaid yn garcharorion ar wahân i Rwsia a'r miloedd sydd yma gennym a chan Ffrainc. Bydd yr holl gyfanrif yn y diwedd tua deng miliwn o leiaf o Germaniaid a miliynau wedi eu lladd.

Llungwyn 21. Y Blaid Lafur eisiau Etholiad 5 neu 11 Gorffennaf. Richard Hughes, Birkenhead yn marw'n sydyn ar ôl ei gadeirio yn Eisteddfod Môn.

Dydd Mawrth 29. Heddiw daliwyd William Joyce (Lord Haw Haw) y bradwr mawr gan y British Second Army yn agos i Hamburg.

MEHEFIN

Mercher 6. Cael llyfrau rasion heddiw yn festri Hermon. Blwyddyn eto o ration o'n blaen.

Iau 7. Streic fawr Bysus y Crosville heddiw a ddoe trwy ogledd Cymru. Dydd Mawrth 12. Goronwy Roberts A.S. Llafur yn Llanrug heno. Sadwrn 16. Dwad â Haw Haw sef William Joyce drosodd i Lundain i'w brofi.

Gwener 22. Cael tri chant o lo 10/9. Dau bwys o datws newydd 7 ceiniog.

GORFFENNAF

Dydd Mawrth 7. Y Bom fawr newydd gan America a Phrydain yn synnu'r byd. Un yn chwalu tref.

Mercher 15. HEDDWCH trwy'r byd heddiw. Japan wedi ildio. Diolch i Dduw am heddwch eto. Dau ddiwrnod o wyliau trwy'r wlad. Bonfires.

MEDI

Sul 2. Am un o'r gloch bore heddiw Japan yn arwyddo heddwch.

Dydd Mawrth 11. Priodas Emrys Owen a Ceinwen Rowlands, Weirglodd Goch. Anfon englyn Mae amryw'n sôn am Emrys - yn disgyn Ar lecyn mor lwcus:

'Nawr caiff wên Ceinwen, canys,
Aur heb wall rodd ar ei bys.

Glan Rhyddallt

Dydd Mawrth 18. Ffair Llanberis. Diwrnod braf.

Mercher 19. Dedfrydwyd William Joyce Ho Ho i gael ei grogi. 3.1.46.

Chwarel Dinorwig eisiau 1,500 o weithwyr newydd a lleihau amser prentisiaeth o 6 i 5 mlynedd.

HYDREF

Gwener 12. Streic y Docwyr. 45,000 allan. Pedwar can mil ar streic yn America.

TACHWEDD

Iau 1af. Diwrnod a gwên Duw arno. Heulwen trwy'r dydd.

RHAGFYR

Iau 6. Cael llythyr 24 tudalen oddi wrth Ap Rambler. Oer a gwlyb. 'O na byddai'n Haf o hyd'.

CYWIRO

Bu tri cambrintio yng ngholofn 'Agor Ffiniau'r Gorffennol' y mis diwethaf.

1. Y linell o waith Glan Rhyddallt. Fel hyn y mae'n gywir

'Am Annwyl Fu - cu y cof'.

2. Oddeutu 1920 gwerthwyd y tŷ etc.

3. Enwau'r Ymddiriedolwyr Gwreiddiol. T.R. Jones, Crawia, O.T. Thomas, Rhianfa etc.

Ymddiheurwn!

Arwel Jones (Golygydd)

Llanberis - Atodiad

CROESO - I Mrs M.L.I. Roberts i'r ardal. Mae Mrs Roberts wedi dod yn Fatron ar Blas Pengwaith.

GWERTHFAWROGIAD - Dymuna Mr a Mrs Arwel Jones a'r teulu ddiolch o galon i gymdogaeth a ffrindiau am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn ystod eu profedigaeth. Casglwyd £200 tuag at yr Ymchwil at Gancr.

BETHEL

LLONGYFARCHIADAU - I Gwen Jones, Y Fachell am gael trydydd am adrodd yn Eisteddfod y Felinheli. Hefyd i Manon a Meinir Williams am gael cyntaf am adrodd a Meinir ail am ganu. Enillodd Meinir y cyntaf hefyd am ganu yn Eisteddfod Carmel, ger Llanrwst a chafodd fedal. Cafodd hefyd gwpan hardd iawn yn Eisteddfod Betws-y-coed am adrodd dan 12 oed.

Y DAWNSWYR MORRIS - Nos Wener diwethaf, cynhaliwyd Noson Goffi yn y neuadd, gyda'r elw o £55 yn mynd tuag at y Dawnswyr Morris. Hoffai aelodau'r pwyllgor ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd tuag at y noson, yn arian ac yn nwyddau. Mae aml un wedi cyfrannu arian, ac fe fydd yr Ysgrifennydd (Mrs Nan Owen) yn anfon diolchiadau personol i bob un yn ystod y dyddiau nesaf. Hoffem hefyd ddiolch i'r canlynol: Mr Harry Vaughan Jones am y llefrith, Mrs Lynwen Morris am y gacen, a'r botel win ac i Mr a Mrs Ron Williams, Tan y Cae am y set sosbenni. Enillwyr y raffl oedd: 1. dyfalu faint o bŷ oedd mewn pot - Mrs Norah Parry, 11 Tan y Buarth. 2. Potel o win - Miss Alison Hughes, 9 Tan y Buarth. 3. Set o Sospenni - Mrs Gwyneth Williams, Llain yr Ardd. Diolchwn hefyd i Mrs Elsie Jones, Tan y Buarth a'r merched o'r Cambrian Catering, Llanberis a wnaeth gasgen 'Chwilio a Chwalu' (Lucky Dip) - yr oedd hwn yn dynfa garw i'r plant; a hefyd i'r foneddiges o'r Tupperware a ddaeth i'r Neuadd.

Yr oedd amryw un arall o'r mamau yn helpu nos Wener, yn ogystal ag aelodau'r pwyllgor a diolchwn iddynt bob un am eu gwaith ardderchog a wnaeth y noson yn un mor lwyddiannus.

CLWB Y MAMAU - Nos Fercher, Mawrth 26, cafwyd arddangosfa o goginio 'Microwave' gan Mrs Hughes o MANWEB, gyda Mr Barry Painter yn helpu. Diolchwyd gan Mrs Lyn Mill. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Elizabeth Evans a Mrs Eirlys Sharpe, a hwy hefyd oedd yn gwneud y te. Enillwyd y raffl gan Mrs Lynwen Morris. Y swyddogion am y flwyddyn nesaf fydd fel a ganlyn: Llywydd, Mrs Lyn Mill, Is-lywydd, Mrs Nan Owen, Ysgrifenyddion, Mrs Shân Robinson a Mrs Diane Hughes, Trsoryddion, Mrs Delyth Evans a Mrs Medwen Green. Aelodau o'r Pwyllgor: Mrs Rhian Birkett a Mrs Valerie Jones.

Nos Fercher, Ebrill 23 cyfarfu Clwb y Mamau yn yr ysgol. Croesawodd y llywydd, Mrs E. Jones, Awel y Crug, Cremlyn ac fe roddodd sgwrs ddifyr iawn ar ei thaith i America a dangos ffilmiau. Diolchwyd i Mrs Jones gan Mrs Sian Robinson, Mrs Jennifer

Jones wnaeth y te. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Nan Owen ac fe'i henillwyd gan Mrs Sian Robinson. Bydd y swper i orffen y flwyddyn nos Wener, Mai 26, a bydd y bws yn gadael y garej am 7 o'r gloch.

CASGLIAD DR BARNADO - Yn ddiweddar, gwnaethpwyd casgliad yn y pentref tuag at gartrefi Dr Barnado. Y cyfanswm a gasglwyd oedd £35.89, fel a ganlyn. Mrs Pat Hughes a Mrs Lona Jones, £8.58. Mrs Norah Parry a Mrs Jennifer Jones, £8.98. Mrs Lyn Mill, £1.15. Mrs Ann Hughes £5.83, Mrs Gwenda Williams a Mrs Rhiannon Owen, £10.45, Gors Bach, 90c.

Hoffai Mrs Nan Owen, llywydd Clwb y Mamau ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

PRYSURDEB BEIRNIAD - Bydd Selwyn Griffith, Llys Awen, yn brysyr iawn yn y misoedd nesaf yn crwydro o eisteddfod i eisteddfod yn beirniadu. Eleni mae'n feirniad adrodd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Abergele. Ym 1981 bydd yn beirniadu barddoniaeth yn Eisteddfod yr Urdd, Dyffryn Tywi ac Eisteddfod Môn ac yn beirniadu adrodd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Machynlleth.

AR Y RADIO - Bore Sadwrn bu Richard Williams, Hafod yn siarad ar y radio am yr ail dro mewn ychydig fisoedd. 'Roedd Richard yn cystadlu mewn cystadleuaeth ar y ffôn. Bydd yn cael dwy record fel gwobr.

PRIODI - Llongyfarchiadau i Miss Julia Mary Roberts, Talysarn a Mr John Pritchard, Llys Ieuan a briodwyd yn ddiweddar yng nghapel Hyfrydle, Talysarn. Mae John wedi bod yn brysyr iawn yn ystod y misoedd diwethaf yn ail wneud eu cartref newydd yn Fron Helyg. Dymunwn y gorau i'r ddau yn eu bywyd priodasol.

Mae'n dymuniadau gorau hefyd i Mr Gwyndaf Birkett, 38 Bro Rhos a Miss Colette Bevan, Braich Melyn, Bethesda a briodwyd yn eglwys Glanogwen, Bethesda yn ddiweddar.

DEWIS BLAENORIAID - Nos Sul, Mai 11 bydd Eglwys y Cysegr yn penderfynu os ydynt am ddewis blaenoriaid ai peidio.

Y CARNIFAL - Dewiswyd Shirley Ann Turner, 1 Minffordd yn frenhines y Carnifal eleni. Ei gosgordd fydd Ceri Evans, Blaen Parc a Gwenno Mair Owen, Crud yr Awel.

Bydd wythnos y Carnifal eleni yn dechrau ar Fehefin 22 ac yn gorffen gyda'r Carnifal ei hun ar Fehefin 28.

CYDYMDEIMLO - Ar Fawrth 29 bu fydd Mr Charles Thomas, 7 Cremlyn. 'Rydym yn cydymdeimlo â'r teulu yn eu profedigaeth.

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E.WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

BRYNREFAIL

Y GROGLITH – Cafwyd cynulliad da i'r cyfarfod pregethu i wrando ar y Parch Dafydd Rees Roberts, BSc, BD, Carreglefn. Yng ngwasanaeth nos Sul y Pasg, cymerwyd rhan gan glant yr eglwys, sef Alwen Jane a Caron Haf Jones, 1 Tai Orwig, Einir a Catrin Gwyn, Min y Nant, Meinir Wyn Jones, 3 Trem Eiliam, Nerys Ann Williams, Llwyncoed, Jacqueline, Glenda a Paula Walters, 3 Minffordd.

BEDYDD – Dydd Sul, Mawrth 30, bedyddiwyd Rober Mark Owen, mab Mr a Mrs Gwynfor Owen, Llanrug. Gwinyddwyd gan y Parch S.O. Hughes, Bethel.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Yn Nhŷ Glas ar Ebrill 17 ymunwyd gyda chlwb Refail a chafwyd noson ddifyr yng nghwmni Mr Cledwyn Williams, Llanrug yn dangos sleidiau ac yn sôn am ei daith i Israel. Rhoddwyd anrheg y mis gan Mrs Helen Jones ac fe'i enillwyd gan Mr Griffith Pritchard. Rhoddwyd y te gan Mrs Knox, Mrs Olwen Jones, Mrs Jinnie Roberts a Mrs Mair Williams.

CLWB MAMAU – Yng nghyfarfod y mis yn Nhŷ Glas, daeth nifer o aelodau ynghyd yng nghwmni Mr Wellsby, a oedd yn dangos sleidiau ac yn sôn am ei daith ddiweddar i Ynys Malta. Rhoddwyd anrheg y mis gan Mrs Jackie Jones, ac fe'i enillwyd gan Mrs Moira Ellis. Rhoddwyd y te gan Mrs Helen Roberts a Mrs Phyllis Jones.

TOMBOLA – Yn Nhŷ Glas dan nawdd 'Action Research', gwnaed elw o £16.75. Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth, a gobeithir cynnal gornest eto yn y dyfodol.

CLWB PEDWARUGAIN – Enillwyr y Mis – Mawrth 7, 1. Eirlys Williams, 2. Meurig Jones, 3. John Orwig Jones. Mawrth 14: 1. Tom Thomas, 2. Jinnie Roberts, 3. Colin Wager. Mawrth 21: 1. Gary Jones, 2. Rhian Jones, 3. Bertie Roberts. Mawrth 28: 1. Geraint Morris, 2. Eifion Roberts, 3. Helen Jones.

YR URDD – Daeth tymor yr Urdd i ben yng ngofal Mr Dafydd Price, Cwm-y-glo. Cafodd y plant fwynhad mawr yn chwarae gemau yn ei gwmni. Diolchwn yn fawr iawn iddo am ei gymorth parod.

RHANNA DY BETHAU GORAU

Rhoi wnaeth y weddw anghenus;
Rhoi wnaeth a da o hyn,
Rhoi yr un fath a'r ffynnon;
Rhoi o waelod y galon!
Rhoi . . . a chael yr un pryd.
Y Ffordd i gadw trysor yw
Ei roi yn ôl ar allor Duw.

Rhanna dy bethau gorau
Rhanna a thi yn dlawd!
Rhanna dy wên a'th gariad,
Rhanna dy gydymdeimlad,
Rhanna dy nefoedd frawd.
Rhyw nefoedd wael yw eiddo'r dyn
Fynn gadw'i nefoedd iddo'i hun

R.E. Jones
Nant Peris.

Anfonwyd gan Mrs M.M. Williams (gynt) Rhyd, Augusta Place, Felinheli i Eco'r Wyddfa. Ond yn awr yn cartrefu gyda'i merch a'r teulu Mrs Mona Griffiths, Orwig House, Llanrug.

Carwn innau ddiolch i chwi, Mrs Williams am y llythyr. Beth am roi rhai o'r hen atgofion ar gof a chadw yn yr Eco? – Gol.

DEINIOLEN

LLONGYFARCHIADAU – i Mr J.D. Evans, Maesdref (Joni'r lard) ar ragor o lwyddiant eisteddfodol. Yn Eisteddfod Mynytho cafodd y wob 1af am ddarn adrodd i blant o dan 7 oed. Yn Eisteddfod y Felinheli cafodd yr ail wob am bortread o Gymeriad Ardal. Portread oedd ganddo o Mr Richard Jones, B.Sc., cyn-ysgolfeistr Ysgol Gwaun Gynfi sydd yn awr yn byw yn Abergele. Pob llwyddiant i chwi efo'ch cyfrol o gerddi, Mr Evans. Bydd y llyfr ar werth yn y dyfodol agos.

Yn Eisteddfod Cylchdaith Arfon (Wesleaid) cafodd Mrs E.A. Griffith, 15 Ffordd Deiniol y wob gyntaf am gyfieithu emyn o'r Gymraeg i'r Saesneg. Cafodd Mr David Henry Davies, 82 Pentre Helen y wob gyntaf am draethawd ar y testun 'Teledu'. Hefyd cafodd yr ail wob am gyfieithu emyn o'r Saesneg i'r Gymraeg, a'r 3edd wob am gyfieithu emyn o'r Gymraeg i'r Saesneg.

Carem fel ardalyr longyfarch Mrs Eirlys Williams, 3 Pentre Helen am ennill y wob gyntaf yn Eisteddfod y Felinheli am wneud brawddeg o'r gair GWANWYN, a'r frawddeg a enillodd y wob iddi oedd: "Gwastraffu Wnaeth Am Na Wybu Ystyr Newyn". Da iawn Eirys. Daliwch ati.



SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd Noson Lawen Genedlaethol y Mudiad yn Theatr yr Arcadia, Llandudno nos Fercher, Ebrill 16, pryd y gwahoddwyd Cangen Deiniolen i gymryd rhan yn y cyfarfod.

Yn cynrychioli'r gangen roedd Parti Canu Penillion wedi eu hyfforddi gan Miss Betti Williams, Tai Gweledfa a bu canmoliaeth mawr iddynt am eu cyfraniad. Cafwyd noson ddifyr iawn a phawb wedi mwynhau eu hunain, ac ar y ffordd adref cawsant lond eu boliau o bysgod a sglodion.

PLAID CYMRU – Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor y gangen yn ystafell y Seindorf nos Fawrth, Ebrill 22 pryd y trafodwyd nifer o faterion pwysig. Penderfynwyd rhoi cyfraniad i gronfa Canolfan y Pentref. Penderfynwyd hefyd ysgrifennu i Adran Ffyrdd y Cyngor Sir i gwyno ynglŷn â chyflwr Gallt-y-Foel, yn arbennig a ffyrdd Deiniolen yn gyffredinol. Enillwyr Clwb Cant mis Mawrth oedd – £15: Rhif 54, Dilys Hughes, Ty'n y Weirglodd. £10: Rhif 23, Nellie Hughes, Erw Fair. Enillwyr mis Ebrill oedd – £10: Rhif 84, Paul Williams, Talwaenydd, Penisarwaun. Y **SEINDORF** – Ar Ebrill 4 sef Dydd Gwener y Groglith, bu'r Seindorf mewn cystadleuaeth ym Mhontins Southport. Roedd y gystadleuaeth o safon uchel ac fe ddyfarnwyd y

Seindorf yn 7ed allan o 23 o fandiau gyda 169 o farciau.

Ary 17eg o fis nesaf mae'r Seindorf yn gobeithio cystadlu yn y gystadleuaeth flynyddol a fydd yn cael ei chynnal yn 'Belle Vue' Manceinion ar y darn prawf 'Music from the Royal Fireworks'.

Ar ddiwrnod agored Gwaith Trydan Dinorwig bu'r band yn ymddiddori llw o ymwelwyr at safle Marchlyn.

Fe gynhelir Noson Goffi ar nos Wener Mai 9 yn Ysgol Gwaun Gynfi. Fe fydd yna amryw o stondinau yn gwerthu nwyddau, teisennau, nwyddau ffansi, 'lucky dip' ac yn y blaen.

CYSTADLEUAETH 'CÂN I GYMRU' – Y grŵp 'Plethyn' a oedd eisiau cân i'w chanu mewn gŵyl Pan-Geltaidd yn lwerddon.

Daeth 'Yr Alltud a aeth' (cân yn olrhain hanes Goronwy Owen o Fôn yn ymfudo i America) yn un o'r chwe chân gyntaf allan o 40.

Roedd y geiriau gan Gwyn Parry, Bro Dawel, Deiniolen a'r gerddoriaeth gan Annette Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig. Dyma'r tro cyntaf iddynt gymryd rhan mewn cystadleuaeth o'r math yma. Clywyd y gân ar y radio 4 gwaith yn ystod Mawrth ac Ebrill.

Cân o'r enw 'Golau tan gwmwl', gan Geraint Lovegreen, a ddaeth yn gyntaf. Gobeithia 'Plethyn' recordio 4 neu 5 o'r 6 cân.

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs O.G. Lewis, ar ran Catherine, 33 Hafod Olau ddiolch i'w theulu, cymdogion, ffrindiau, Ysgol Gwaun Gynfi, teulu a chyfeillion yn ardal Llanrug, y Parchedigion Ifor Lloyd Williams, Libanus a Trefor Lewis, Disgwylfa, tra bu yn aros yn ysbyty Lerpwl yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU – i'r Parch. Ifor Lloyd Williams, Bangor, gweinidog Libanus, Clwt-y-bont, a Sardis, Dinorwig ar ei ethol yn Llywydd Eglwys Rhyddion Gogledd Cymru yn Rhuthun.

DIOLCH – Dymuna Mr Idwal Jones, Tŷ Capel Libanus, Clwt-y-bont ddiolch i'w deulu, perthnasau, cymdogion, meddygon a staff Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon am y caredigrwydd hael, a'r cardiau a dderbyniwyd tra bu yno yn ddiweddar.

CEFNYWAUN – Ar ddydd Sul, Ebrill 13 cynhaliwyd dau wasanaeth arbennig. Yr oedd gwasanaeth y bore dan arweiniad rhai o blant yr eglwys, ac ar derfyn yr oedfa cyflwynodd y plant dusw o flodau i famau'r eglwys. Gyda'r hwyr derbyniwyd wyth o bobl ieuainc yn gyflawn aelodau, sef Gwyndaf, Kevin, Sharon Jones, Emyr a Lola Llewelyn, John Morris, Ian Wyn a Janet Williams. Yn y gwasanaeth cyflwynwyd i wasanaeth yr eglwys, organ drydan newydd gan aelodau Cymdeithas Pobl Ieuainc Cefnywaun. Bu aelodau'r Gymdeithas yn casglu'r arian angenrheidiol sef £1,300 a chwblhawyd y gwaith mewn llai na chwe mis. Dymuna'r Gymdeithas ddiolch i bawb a gyfrannodd.

YR YSGOL FEITHRIN – I ddathlu'r wythnos Feithrin Genedlaethol eleni, cynhelir Bore Agored yn yr Ysgol Feithrin lleol, ddydd Mercher, Mai 14, o 10.00-11.30. Estynnir gwahoddiad cynnes i bawb.

I GOFIO – Un o gymeriadau hoff ac adnabyddus y pentref flynyddoedd yn ôl oedd Miss M.A. Jones, neu fel yr adwaenai pawb hi orau 'M.A.'

Bu farw yn 86 mlwydd oed yng Nghartref Plas Maesincla, Caernarfon ar Fawrth 23, ple roedd

wedi cartrefu ers 1966. Unig blentyn ydoedd i'r diweddar Mr a Mrs Thomas Jones, Trigfan, Stryd Fawr, Deiniolen. Ei thad – 'Tommy Cae Dafydd' fel yr adwaenwyd ef, hefyd yn adnabyddus yn y plwyf, gan iddo fod am flynyddoedd yn gweithio i Gyngor Plwyf Llanddeiniolen, a gallai ddweud wrthyh ymhle roedd pob traen a phibell ddŵr yn y plwyf. Roedd yn un medrus gyda'i law fel saer maen ac ef hefyd fyddai'n gyfrifol am olau a diffodd y lampau cyhoeddus fyddai hyd ffyrdd yr ardal cyn i'r trydan ddod.

Cyn y rhyfel cynta 1914-18 cadwai M.A. siop fach ddel yn rhan nesa' i'r Bee Hive o'r Wellington Inn. Gwerthai felysion, sigarennau, tobacco ac yn y blaen, ac i'r ystafell fach, fel yn siop Mr J. Moses Griffith a Mrs Catrin Thomas, byddai bechgyn ifanc yr ardal gyda'r nos yn ymgynnull am sgwrs a hwyl. Roedd M.A. yn un hwyliog a nodedig am ei ffraethineb a bu'n hynod garedig wrth fechgyn yr ardal oedd yn y fyddin adeg y rhyfel. Anfonai barseli iddynt i gyd yn eu tro. Fe fagwyd hi yn Eglwys Llandinorwig ac roedd yn un o blant yr hen Ysgol Llandinorwig.

Adeiladwyd Deiniol Road a Cynfi Terrace ar dir yr hen Dyddyn 'Cae Dafydd' sef cartre' ei thad. Roedd ei mam yn enedigol o Bwllheli. Roedd y ddau yn fawr eu parch am eu cymwynasgarwch yn yr hen gymdogaeth garedig a chlos fyddai'n bod yn Neiniolen.

Prissie Roberts.

CANOLFAN GYMDEITHASOL – Cynhaliwyd Gyrfa Chwist lwyddiannus iawn nos Fercher, Ebrill 23 yn ysgol Gwaun Gynfi. Yr enillwyr oedd, Merched: Mrs M.J. Evans, 3 Hafod Olau; 2. Mrs Maxwell, Fron Oleu, Gallt y Foel; 3. Miss Rhian Jones, Tai Gweledfa. Gwobr Booby – Miss Jean Hughes, London House, Clwt y Bont. Dynion. Gwobr 1: Mr W.O. Williams, Tŷ Capel, Disgwylfa; 2. Mr Meirion Jones, Minafon, Clwt y Bont; 3. Mr Noel Owen, 29 Stryd Newydd. Gwobr (Booby): Mr John Jones, Groeslon, Tŷ Mawr. Gwobr Hanner Amser: Dynion: Mr Robert Williams, 4 Tai Caradog, Merched: Mrs M. Thomas, Berthen Gron, Clwt y Bont. Raffl: Mrs Lennon Llanberis, Mr W.O. Williams, Tŷ Capel, Disgwylfa, Mrs Davies, Y Llythyrdy, Mrs Eileen Hughes, Tai Victoria, Mrs E. Roberts, 37 Rhydfadog, Mrs Hughes, London House, Clwt y Bont. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb am gefnogi'r noson, a hefyd a gyfrannodd mewn rhoddion ac arian.

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**

**Wavell
Roberts
CIGYDD**

**LONDON HOUSE
LLANRUG**

**Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FROI**

**Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus**

**Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist**

**MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!**

LLANRUG

YR YSGOL FEITHRIN - Caed taith feiciau lwyddiannus iawn, ac mae'r arian yn dod i law tuag at y mudiad. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth.

Daeth nifer dda ynghyd i'r Ffair Basg a Thombola a gynhaliwyd yn yr Ysgol Gynradd a gwnaethpwyd elw sylweddol. Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn ddiffuant am bob cyfraniad, cymorth a chefnogaeth. Diolch hefyd i Mrs Eirwen Williams, Bryn Gro am ei charedigrwydd yn rhoddi papur i'r Ysgol Feithrin.

MERCHED Y WAWR - Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen nos Fawrth, Ebrill 8 gyda Mrs N. Lovatt yn y gadair. Methodd y wraig wadd fod yn bresennol ac oherwydd hynny penderfynwyd cynnal cyfarfod blynyddol gan adael y sgwrs a'r arddangosiad coluro gan Mrs Janet Pritchard hyd yr ail nos Fawrth ym mis Mai yn yr Ysgol Gynradd.

Y swyddogion am y ddwy flynedd nesaf fydd, Llywydd: Miss Phyllis Ellis, Is-lywydd: (i'w benderfynu yn y cyfarfod ym mis Mai). Ysgrifennydd: Mrs Eirlys Pierce, Is-ysgrifennydd: Mrs Heulwen Jones. Dwy o'r newydd i'r pwyllgor presennol: Mrs Margaret Jones, Mrs Ann Evans. Dosbarthwyr y Wawr: Mrs Enid Grindvalds a Mrs Rhian Jones. Gohebydd y Wasg: Miss Megan Humphreys, mewn cydweithrediad â'r gohebydd presennol. Cynrychiolydd i Aberystwyth: Miss Megan Humphreys. Gwibdaith haf i Gonwy ac yna ymlaen i Blas Maenan am swper o gywâr a sgolodion cacen siocleda choffi. Cost - oddeutu £3.50. Enwau i Mrs Eirlys Pierce a Mrs Beth Ann Williams erbyn Mai 31.

CYDYMDEIMLAD - Estynnir ein cydymdeimlad llwyraf â Mr a Mrs Arwel Jones, Dafydd ac Olwen, Gwên-y-Wawr, yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl. Mr Richard Jones, Glasfryn, Llanberis.

GENI - Ganwyd mab bychan, Ynyr Gruffudd i Mr a Mrs Tegid Roberts, Arwel, Ponthythallt - brawd i Huw Tegid. Hefyd, ganwyd mab i Mr a Mrs Owen Griffith, Hawddamor, Iwan, brawd i Nia. Llongyfarchiadau a dymuniadau da i'r ddau deulu.

Y SEINDORF - Ar Fawrth 30, aeth y Seindorf i gystadlu i Preston. Buont yn llwyddiannus iawn, daethant yn drydydd allan o 28 o fandiau. Maent yn mynd ymlaen yn awr i'r rownd derfynol genedlaethol a gynhelir yn Llundain ar Hydref 4. Gobeithir trefnu amryw o weithgareddau drwy'r haf i godi'r arian sydd ei angen ar gyfer hyn.

Dydd Gwener y Groglith buont yn Pontins, Southport, ond ni chawsant wobwr y tro hwn.

LLONGYFARCHIADAU - i Gwyn Meirion Roberts, Gregynog ar ei lwyddiant yn Eisteddfod Sir yr Urdd, a gynhaliwyd ym Mangor yn ddiweddar. Daeth Gwyn yn ail yn y gystadleuaeth 'unawd offeryn pres' dan 15 oed.

Llongyfarchiadau i Nigel R. Thomas ar ennill medal aur, a Bryn C. Thomas ar gael bathodyn 20 medr am nofio. Mae Nigel a Bryn yn byw yn Llys Eiddon.

MARW - Dydd Gwener y Groglith, wedi gwaeldd hir, yn 76 mlwydd oed, bu farw Mrs Jane Williams, Penrhos Bungalow, Llanrug. Bu'r angladd preifat ddydd Mercher, Ebrill 9, ym mynwent Macpelah. Gweinyddwyd gan ei gweinidog, y Parch. W.O. Roberts a chan y Parch Trefor Lewis, Cefnywaen. Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu oll yn eu colled.

SYMUD O'R ARDAL - Dymuna eu llw cyfeillion bob bendith i Mr a Mrs Peter Bolton a'u merch fach Heledd, 19 Talybont, ar eu hymadawiad i Dywyn, Meirionnydd.

Llongyfarchiadau i Jean Roberts, Bro Rhyddallt a Diane a Sharon Thomas ar eu llwyddiant yn yr Arholiad Ysgrifenedig, Dosbarth Caernarfon. Gwobrwyir hwy yn y Gymanfa yn y Bontnewydd. Maent yn aelodau o Ysgol Sul, Pontrhythallt.

PLAID CYMRU - Ym mhwyllgor mis Mawrth cafwyd adroddiad gan yr Ysgrifennydd Aelodaeth bod cynnydd yn yr aelodaeth a bod aelodau newydd yn dal i ymuno. Trefnwyd gweithgareddau ar gyfer y dyfodol a chaiff pob aelod nodiad o'r rhain. Enillwyr Clwb Cant am y mis: 1. Mr Gareth Roberts, 2. Mr Ifan Parry, 3. Mr Emlyn Jones.

BEDYDD - Bore Sul, Mawrth 2, yn y Capel Mawr, bedyddiwyd Iola Wyn, merch fach Eryl a Valerie Davies, Rhoslan, Bethel. Gwasanaethwyd gan y gweinidog, y Parch W.O. Roberts.

CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR - Cafwyd noson goffi yn ddiweddar. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs N. Roberts, Anedd Wen. Anfonwyd cofion at y chwiorydd oedd yn wael, a diolchwyd am roddion. Rhoddwyd y coffi gan Mrs N. Lovatt, Brwynog a Mrs O. Llywelyn, Pant Afon Bach. Diolchwyd gan y llywydd, Mrs N. Roberts.

CYDYMDEIMLAD - Estynnir ein cydymdeimlad llwyraf â Mr a Mrs Richard Bernard, Louise ac Emma, Pen-y-Lan ar farwolaeth mam Mr Bernard yn Llundain.

CLWB BLODAU'R GRUG - Cawsom gyfarfod o'r clwb pnawn dydd Iau, Ebrill 10 yn y Sefydliad Goffa. Y cadeirydd oedd y Rheithor, y Parch. Gwynfor Williams. Y gŵr gwadd oedd Mr Stanley Roberts, Hafod Wen, Glanffynnon, gynt o Eryri. Mae ar ei wyliau yma o Dde Affrig, lle mae'n ysgolfeistr. Croesawyd Mr Roberts gan y cadeirydd a darllenwyd penillion gan Mrs Myfi Roberts i'w groesawu. Gwaith y Parch. W.O. Roberts oedd y penillion. Cafwyd hanes yr Affrig gan Mr Roberts, - ei gwledydd, ei hysgolion a'i bywyd. Reis yw eu prif fwyd. Soniodd am eu gwisgoedd. Hefyd canodd un o'u caneuon. Cafwyd rhodd gwerthfawr ganddo i'r clwb. Talwyd diolch iddo gan Miss A. Baines Griffith a Mr Ifor Williams, Gwelfryn.

Rhoddwyd y te gan Mrs Annie Parry, Bryn Coch Terrace, Mrs Ifor Williams, Miss Buddug Williams, Glanpadarn, Mrs Ena Jones, Bod Ifor. Enillwyd y raffl gan Mrs Owen, Is y Bryn, Tan-y-coed.

BETWS GARMON

MARW - Y mis diwethaf bu farw Mr R.O. Pritchard neu 'Bob Plas Isa', fel yr adwaenid ef yn yr ardal. Er iddo ymadael o'r ardal ers llawer o flynyddoedd yr oedd yn dderbynydd cyson o 'Eco'r Wyddfa' ac fe gofia'r darllenwyr am ei gyfraniadau diddorol i'r papur. Yr oedd rhagor i ddod, un yn arbennig i olynu hanes y trên bach ond ni chafodd orffen y gwaith. Serch hynny mae llawer o'i ysgrifau wedi eu cadw yn ddiogel, rhai nad ymddangosasant mewn papur o'r blaen. Cydymdeimlwn â'i frawd Mr O.P. Pritchard, Plas isa ac â'r teulu i gyd.

CWM-Y-GLO

Merched y Wawr Nos Fercher, Ebrill 16 cyfarfu aelodau Merched y Wawr lleol yn y Ganolfan Gymdeithasol i drefnu lleoliad a dyddiad y wibdaith flynyddol i bensiynwyr y pentref a sydd bellach yn rhan o weithgareddau'r gangen.

Gan fod pawb wedi mwynhau eu hunain gymiant yn Llandudno y llynedd penderfynwyd mynd yno eto eleni ar Fehefin 21. Bydd y bws yn cychwyn am 12 o'r gloch. Bydd aelodau'r gangen yn ymweld â'r pensiynwyr ar un o'r dyddiau nesaf yma er mwyn cael amcangyfrif faint o'r pensiynwyr sydd yn bwriadu mynd ar y trip.

Dymunodd y llywydd Mrs Lowri Prys Roberts wellhad buan i'r is-lywydd Miss Mat Pritchard, ac i Mrs Nan Rowlands sydd wedi cyfarfod â damwain yn ei chartref newydd yn Llanrug.

Yr oedd yn ddrwg gennym glywed fod Mrs A. Griffiths (Ashville gynt)

wedi cyfarfod â damwain yn ei chartref newydd hithau yn Llanrug.

Cynhelir noson goffi gyda byrddau Moes a Phryn er budd y wibdaith yn y Ganolfan am saith o'r gloch, Mai 21. Gobeithio y cawn eich cefnogaeth arferol.

Miss Mat Pritchard fydd y llywydd eleni, gyda Mrs Gwyneth Chick yn is-lywydd.

Fe erys y swyddogion eraill yn eu swyddi am flwyddyn arall.

Mrs Margaret Williams, Nant Forgan a Mrs Sylvia Williams, Llwyncoed oedd y gwestwragedd. Hwy hefyd roddodd wobwr y raffl a enillwyd gan Mrs Hilda Orritt.


Diolchwyd gan Mrs K. Watkins, Dolwen.

YR URDD - Daeth tymor yr Urdd i ben yng ngofal Mr Dafydd Price, Cwm-y-glo. Cafodd y plant fwynhad mawr yn chwarae gemau yn ei gwmini. Diolchwn yn fawr iawn iddo am ei gymorth parod.



Plant yr ysgol mewn cywair mwy difrifol yn agoriad swyddogol Canolfan Cwm

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn 202

**TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI**

DYDDIADUR

1, Iau, LLANRUG: Noson Goffi Chwiorydd Capel Mawr. WAUNFAWR: Sefydliad y Merched - trafodaeth gan ymwelydd gwirfoddol.
2, Gwener. PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30
3, Sadwrn. WAUNFAWR: Cangen Plaid Cymru - 'Cân Calan Mai' yng Ngwesty Fictoria, Llanberis am 8.00
5, Llun, Gŵyl Calan Mai'. LLANBERIS: Gyrfa Chwist dan nawdd St John's yn y Ganolfan am 7.30.
9, Gwener. LLANBERIS: Te bach yr Henoed. DEINIOLLEN: Noson Goffi dan nawdd y Seindorf yn Ysgol Gwaun Gynfi.
10, Sadwrn. LLANBERIS: Disgo dewis Brenhines Carnifal '80 yn y Ganolfan. Gwibdaith Cymdeithas Lenyddol Capeli M.C. i Aberystwyth.
12, Llun. LLANBERIS: Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30.
13, Mawrth. LLANRUG: Merched y Wawr - noson yng nghwmni Miss Janet Pritchard. BETHEL: Clwb Bro Rhos yn Ffestri Bethel yng nghwmni Mr Frank Rhys Jones, Tregarth. WAUNFAWR: Bore Agored yn Ffestri Capel Croesywaun rhwng 10 ac 11 o'r gloch i ddathlu Wythnos Wyl Feithrin.
14, Mercher. BETHEL: Merched y Wawr. DEINIOLLEN: Bore Agored yn

yr Ysgol Feithrin o 10 hyd 11.30 i ddathlu yr wythnos Feithrin Genedlaethol.

15, Iau. WAUNFAWR: Ffair Wanwyn Clwb Gwryfai. BETHEL: Sefydliad y Merched. LLANBERIS: Noson Goffi ac Arwerthiant dan nawdd Mudiad yr Ysgolion Meithrin yn y Ganolfan am 6.30

19, Llun. LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30

20, Mawrth. PENISARWAUN: Clwb yr Heulwen. YR ARDAL: Cymdeithas y Bont yn cyfarfod yng Nghaeathro.
21, Mercher. CWM-Y-GLO: Noson Goffi gyda byrddau 'Moes a Phryn' am 7.00 yn y Ganolfan. Y noson dan nawdd Cangen Merched y Wawr.

22, Iau. LLANRUG: Coroni Brenhines y 'Majorettes' yn Ysgol Brynrefail.
23, Gwener. LLANBERIS: Te bach yr Henoed. LLANRUG: Helfa Drysor Plaid Cymru.

26, Llun. LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y ganolfan am 7.30

29, Iau. WAUNFAWR: Gwibdaith flynyddol Clwb Gwryfai i Ynys Môn.

DYDDIADAU I'W COFIO


Mehefin 7. Taith Gerdded Noddedig Carnifal '80 Llanberis.

Mehefin 22-28: Wythnos Garnifal Bethel.

Gorffennaf 6-12: Wythnos Garnifal Deiniolen


Gorffennaf 12-19: Wythnos Garnifal Llanberis.

Parcio ar wely Llyn?



Parcio ceir ar wely Llyn Peris? Pwy fuasai'n ddigon dewr i gyhoeddi hyn tua pum mlynedd yn ôl? Dyna

ddigwyddodd ddydd Sadwrn Ebrill 26 1980.



Gwesty Dolbadarn

Tŷ

Rhydd-

Feddiant

Llanberis

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog

Aneuryn

Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS

NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd

CANOLFAN DRECIO

Holwch am ein

telerau rhesymol



GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo

Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR



CROESAIR RHIF 37

I LAWR:

1. Arf i godi gwair (7)
2. Cartref y pâr cyntaf erioed (4,4)
3. To ystafell (6)
4. Ymuno fel gŵr a gwraig (6)
5. Gŵr bonheddig o'r wlad (6)
6. Efo (4)
7. Bargod (5)
14. "O! . . . , O! . . . yr hyfryd wawr ar led" (3)
15. Os na ! (3)
16. Simsan (8)
19. Mae hwn yn fwy eleni oherwydd y naid! (7)
- 21 a 27. Glöyn Byw (3,3,2,3)
23. Erfin (6)
24. Balchder neu ymffrost (5)
25. Hedegog (4)

AR DRAWS:

1. Anghredadun (5)
5. Llafur wedi ei rwymo! (5)
8. "Dewi . . ." (5)
9. Pum swllt (5)
10. Yna (5)
11. Math o ffidil (5)
12. Cenhedlaeth! (2)
13. Llesol (7)
17. Rhif (3)
18. "Aderyn bach yn canu'n . . ." (3)
20. Sbonc fawr! (4,3)
24. Sŵn cras ac uchel (2)
26. " . . . yr horn" (5)

27. Gweler 21 i lawr
28. Gostyngeiddrwydd (5)
29. Metel gwerthfawr (5)
30. Ymguddio neu osgoi (5)
31. Di-waith neu ddiog (5)

Cyfrifir y llythrennau canlynol fel UN llythyren: ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th.

Anfoner y cynigion fel arfer i: Myrddin Owen, 32 Stryd Fawr, Llanberis.

£1 o wobr i'r enillydd.

ATEBION CROESAIR RHIF 36 (Nadolig 1979)

AR DRAWS: 2. Iesu Grist, 8. Trysor Drud, 9. Do, 10. Law, 12. Mae, 13. Wedi, 15. Camel, 17. Dlos, 18. Urdd, 20. Ei, 21. Efengyl, 22. Uno, 25. Dol, 27. Dyn, 29. Cof, 31. Dime, 32. Efelychu, 35. Corn, 36. Ffestri, 37. Noson.

I LAWR: 1 a 25. Bethlehem Dref, 3. Er, 4. Sy, 5. Us, 6. Tudalen, 7. Y Doethion, 8. Tlawd, 11. Wele, 12. Meddu, 14. Is, 16. Aur, 19. Ru, 23. Toc, 24. Cymro, 26. Loes, 27. Di-os, 28. Nen, 30. Byr, 33. Chi, 34. Un, 35. Co.

Enillydd Croesair Rhif 36: Gwyneth Jones, Llythyrdy, Llanberis.

CHWARAEON

PÊL-DROED

LLANBERIS

Mis caled yn hanes y Clwb – bu'n rhaid chwarae bron dair gêm yr wythnos ar gyfartaledd. Ni chollwyd ond un yn y gynghrair, yn erbyn Bethesda, a llithrodd dau bwynt gwerthfawr o'u gafael. Er hynny, nid oes arnynt eisiau ond dau bwynt i sicrhau'r bencampwriaeth, ac y mae dwy gêm ar ôl ganddynt. Os daw'r pwyntiau hyn yn erbyn Bangor Athletic ar Ebrill 29 yna ni fydd canlyniad eu gêm olaf yn erbyn Llanrug ar Mai 5 o unrhyw ddylanwad ar eu ffawd.

Anafwyd Ieuan Evans yn y gêm yn erbyn Mountain Rangers ac fe'i dŷgwyd i'r ysbyty i gael triniaeth i'w ben. Da deall na ddaeth nam difriol iddo, ond ni fydd yn chwarae am weddill y tymor.

Ar Mai 1 chwaraeir yn erbyn Caernarfon Utd. ar gae Llanrug yn rownd gynderfynol y Cwpan Alves, a bydd yn rhaid chwarae unwaith eto yn erbyn Fflint ar gae Conwy i benderfynu pwy fydd yn mynd ymlaen i rownd derfynol Cwpan J.W. Lees.

LLANRUG

Mae tymor siomedig iawn yn dirwyn i ben i Lanrug. Am y tro cyntaf ers dau dymor ni fydd unrhyw dlws yn dod i Gae Eithin Duon. Yn ystod y mis diwethaf colodd Llanrug eu hunig sianw o dlws ar ôl eu curo gan Hiracl yn ail rownd Cwpan Alves – a hynny ar ôl amser ychwanegol yn yr ail-chwarae. Diflas oedd eu gemau cynghrair hefyd, gan chwarae gemau cyfartal yn erbyn Hiracl a Bangor Athletic, ond daeth llygedyn o oleuni y Sadwrn diwethaf wedi iddynt guro Porthmadog o 7 gôl i 2 ar eu maes eu hunain. (Hefin Pritchard yn sgorio tair). Er hyn, gall Llanrug benderfynu i ble mae'r bencampwriaeth yn mynd y tymor hwn, oherwydd rhaid chwarae Llanberis yn eu gêm olaf o'r tymor, a bydd yn rheidrwydd ar Lanberis ennill y gêm honno, neu ail dîm Caernarfon fydd yn ennill y bencampwriaeth.

TABL Y GYNGHRAIR

	Ch	E	Cyf	Colli	OB	YE	Pt
Caernarfon	26	16	7	3	82	26	39
Llanberis	24	16	6	2	83	21	38
Mt. Rangers	26	15	3	8	62	39	33
C'fon Utd	24	13	5	6	58	46	31
Llanrug	24	13	4	7	60	41	30
Pwllheli	23	12	5	6	59	38	29

TÎM CLWT Y BONT 1929

Arwel,
Brynsiencyn,
Ynys Môn.

Ffôn: Brynsiencyn 397.
Annwyl Olygydd,

Yn rhifyn Ebrill o Eco'r Wyddfay mae llun o dîm pêl-droed ar dudalen gefn, a gofynnir am wybodaeth ynglŷn â'r llun. Credaf mai tîm pêl-droed Clwt-y-bont yw, tua'r flwyddyn 1929. Tîm ardderchog oedd a phe bai ar gael heddiw buasai yn gwneud cylchoedd o gwmpas tîm Bangor. Bûm innau yn chwarae yn eu herbyn gyda Brynsiencyn Hotspurs. 'Rwy'n meddwl y gallaf enwi y cwbl ond dau. Mae'r rhai canlynol wedi marw: Morris Hughes (o'r Bryn) yn sefyll â'r tywel ar ei ysgwydd ac wrth ei ochr Guto Evans. Yr ochr arall Owen Jones a Dic Betws. Y golgeidwad oedd Arthur Rees a gyfarfu â damwain angheuol ym Mhentre Berw, Môn a John Ffiar. Mae'r rhai canlynol yn fyw i mi wybod sef Wil Sam yn Neiniolen, Willie Wyn ym Methel, Dic Owen yn Llanberis, Bob Hughes, Llanberis. Y sawl sy'n dal y cwpan yw Now Cali fel yr adwaenid ef yn y Chwarel a Dei ond nid wyf yn sicr lle mae'n byw yn

awr. Y cae, 'rwy'n meddwl oedd tu ôl i'r cwt band yn rhedeg i lawr at afon a'r cwpan yw un a'r Alves neu'r Dargie. Nid oedd 'training sessions' yr adeg honno fel heddiw ond pob un yn gweithio yn galed o fore Llun hyd hanner dydd Sadwrn a throi allan i chwarae yn y pnawn i ddwyn clod i'r ardal ac mae gennyf barch mawr iddynt. Carwn gael gwybod drwy Eco'r Wyddfay a wyf yn iawn.

Cyn terfynu rhaid dweud stori fach am Morris Hughes. Gwnaeth ryw ddrwg bach yn y chwarel a galwyd ef i'r Offis Fawr at y rheolwr, J. Lloyd Williams, ac fe'i stopiwyd am amser amhenodol. Atebodd Morris Hughes ef trwy ddweud "Trowch y chwarel a'i gwyneb i lawr a phlannwch goed gwsberis ynddi." Ar ôl rhyw flwyddyn heb waith aeth yn ei ôl at y rheolwr a gofyn am waith a'r atebiad gafodd oedd "Na, 'rwyf wedi plannu gwsberis ynddi." Yr un mor sydyn dyma Morris Hughes yn gofyn "Sut mae ei dallt hi am ddod yma i'w hel nhw?" A'r ateb fu, "Dechreuau bore Llun."

Yn gywir iawn,
Alfred Williams.

Gair o ddiolch

Gan mai dyma'r rhifyn olaf o'r Eco y bydd y cyfrifoldeb am y dudalen ôl arnaf, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'm cyd-weithwyr ac i'r ffyddloniaid fu'n gohebu â mi dros gyfnod o bedair blynedd. Cyfeiriaf yn arbennig at Dafydd W. Thomas, Llanrug, Eurwyn Thomas a Lal Jones o Lanberis a'r Parch Herbert Thomas, Llannor. Bu eu cyfraniadau hwy, ac eraill, yn asgwrn cefn i'r dudalen am wyth rhifyn a deugain.

Bu'r paratoi misol yn gyfrwng oriau o bleser i mi, a deuthum i gyfarfod, ac i gyfrif ymhlith fy nghyfeillion nifer fawr o'r ardalwyr drwy rinwedd fy swydd. Gobeithiaf y daw i'm

dilynnydd yr un profiad.

Teimlaf bellach fod angen gwaed newydd, safbwynt wahanol, ar y dudalen gan yr ofnaf mai adlewyrchu fy niddordebau personol i a wnaeth yn ddiweddar, a daeth yr amser pan nad oes fawr ar ôl i ysgrifennu amdano. Hyderaf yr ystyrir 'Chwaraeon' gan fy nilynnydd mewn golau gwahanol na chanolbwyntiwyd arnynt gennyfi. Hwyrach mai da fyddai newid yr enw a'i galw'n dudalen 'Hamdden', ond nid fy mhenderfyniad i fydd hynny.

'Rwy'n gwerthfawrogi'r iaith a'r ardal drwy'r cyfrwng hwn, ac edrychaf ymlaen at fy sialens newydd, sef ceisio hybu ochr gymdeithasol y papur.

Pencampwyr Gwynedd

Tîm pêl-droed 5 bob ochr Clwb Ieuenctid Llanberis a enillodd gystadleuaeth a drefnwyd gan Gymdeithas Clybiau Ieuenctid Cymru ac a gynhaliwyd ym Mhlas Arthur Llangefni yn ddiweddar.

Bydd y genethod yn awr yn mynd ymlaen i rowndiau terfynol Cymru

sydd i'w cynnal ar gampws Coleg y Brifysgol, Aberystwyth ddydd Sadwrn 3ydd o Fai, 1980.

Y tîm (o'r gwaelod i fyny) — Elaine Jones, Nia Jones, Eurgain Roberts, Carys Williams a Lynne Jones. Pob lwc iddynt yn Aber! Llun: John Gwyr Williams.

